# Atodiad A

# Diweddariadau yn erbyn Blaenoriaethau BGC Caerdydd ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth

## Amcan Lles 1: Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael Eich Magu

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
| --- | --- |
| Ennill statws Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF, gan sicrhau bod llais pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei glywed a'u hanghenion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. | Ym mis Hydref 2023, daeth Caerdydd yn ddinas gyntaf y DU i gael ei chydnabod yn ffurfiol yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF. Mae partneriaid BGC Caerdydd wedi bod yn gweithio tuag at y gydnabyddiaeth hon ers 2017, pan ymunodd y ddinas â rhaglen Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF. Ers hynny, mae partneriaid wedi gweithio i roi nifer o brosiectau, mentrau a chamau gweithredu uchelgeisiol ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc, ledled y ddinas, yn gallu manteisio ar eu hawliau, a mynd i'r afael â'r rhwystrau a allai gyfyngu ar eu cyfleoedd bywyd. Ymysg yr uchafbwyntiau[1]:<br>• Mae 73 % o ysgolion Caerdydd yn gweithio i wreiddio hawliau plant fel rhan o Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF UK.<br>• Mae dros 5,500 o staff - ar draws partneriaid - wedi cwblhau hyfforddiant hawliau plant, ac mae dros 3,500 o blant a phobl ifanc wedi derbyn hyfforddiant mewn cyfranogiad a hawliau.<br>• Mae dros 700 o gyfleoedd wedi bod ar gael i blant a phobl ifanc gyfrannu'n ystyrlon at y broses o wneud penderfyniadau yng Nghyngor Caerdydd.<br>Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd BGC Caerdydd sesiwn ymgysylltu gydag aelodau Cyngor Ieuenctid Caerdydd (CIC), a alluogodd bobl ifanc i fynegi pa fath o ddinas yr hoffent ei gweld yn y dyfodol.<br>Wrth edrych ymlaen, bydd y ddinas yn parhau i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc drwy Gynllun Cynaliadwyedd 2023-2026. Mae'r Cynllun, y cytunwyd arno ag UNICEF, yn amlinellu rhaglen waith ar gyfer y tair blynedd nesaf sy'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:<br>1. **Addysg Hawliau Plant:** Addysg barhaus rhanddeiliaid sy'n oedolion a phlant a phobl ifanc ar hawliau plant, drwy raglen helaeth o hyfforddiant, ochr yn ochr â gweithredu'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.<br>2. **Cyfranogiad ac Ymgysylltiad:** Cyfranogiad gweithredol ac ystyrlon plant a phobl ifanc yn natblygiad y ddinas.<br>3. **Lle - Cynllunio a Dylunio Dinesig:** Cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau cynllunio a dylunio trefol, gan sicrhau bod amgylchedd adeiledig Caerdydd yn ymateb i anghenion ei thrigolion iau, yn ogystal â bod yn ffafriol i les a datblygiad plant a phobl ifanc.<br><br>1 Ers mis Mehefin 2024. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | 4. **Cyfartal ac yn Cael eu Cynnwys:** Mynd i'r afael â materion anghydraddoldeb, gyda ffocws penodol ar degwch rhyw a phrofiadau plant a phobl ifanc o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig.<br><br>Trwy'r meysydd ffocws hyn, nod Caerdydd sy'n Dda i Blant yw cynnal a gwella ei hymrwymiad i wneud hawliau'n realiti i bob plentyn yn y brifddinas. Trwy integreiddio dull hawliau plant mewn polisïau, cynllunio ac arferion y ddinas, mae Caerdydd yn gosod cynsail ar gyfer creu amgylcheddau cynhwysol, teg a chefnogol ar gyfer ei dinasyddion iau. |
| Drwy Addewid Caerdydd, gwella cydweithio rhwng Ysgolion, Cyflogwyr, a Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i ddatblygu dilysrwydd y Cwricwlwm Ysgol yng Nghaerdydd ymhellach, gan gryfhau pŵer addysg i weddnewid dyfodol pobl ifanc ac adeiladu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithleoedd yr 21ain ganrif. | Mae Addewid Caerdydd yn gynghrair o gyflogwyr ledled y ddinas o sectorau twf yr economi, addysg uwch, addysg bellach, y trydydd sector ac ysgolion sy'n ceisio defnyddio cyfalaf economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Caerdydd er budd plant a phobl ifanc. Er enghraifft, drwy gynnig gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau dilys i bobl ifanc, ynghyd â chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, profiad gwaith a gweithgareddau cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae dros 300 o gyflogwyr yn gweithio gydag Addewid Caerdydd ar hyn o bryd.<br><br>Yn ystod 2023-24, mae'r meysydd cynnydd yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):<br><br>• Cefnogwyd sawl ysgol i gynnal Fforymau Busnes, gan helpu i ddod â phartneriaid cyflogwyr gwerthfawr ynghyd sy'n cyd-fynd â dyheadau disgyblion.<br>• Cynhaliwyd wythnosau 'Wythnos Agor Dy Lygaid' ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2023, ar gyfer plant ysgolion cynradd ym mlynyddoedd pump a chwech o bob rhan o Gaerdydd, i dynnu sylw at y gwahanol gyfleoedd sydd ar gael ym myd gwaith.<br>• Gwobr 'Beth Nesaf?' Lansiwyd rhaglen wobrwyo i ddarparu profiad gwaith i ddisgyblion Chweched Dosbarth ar draws Caerdydd. Mae dros 460 o leoliadau wedi'u canfod ers hynny, a fydd yn cael eu darparu i ddisgyblion ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024.<br>• Mae gwaith wedi mynd rhagddo i greu peilot arloesol, gyda Chanolfan Blant Caerau a Threlái, lle mae disgyblion blynyddoedd cynnar yn derbyn gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith.<br>• Dechreuodd y Rhaglen Cyflogaeth â Chymorth ar gyfer oedolion ifanc ag anableddau dysgu, Project Search, ei thrydedd flwyddyn. Mae'r rhaglen yn cefnogi myfyrwyr, wrth iddynt bontio o'r ysgol i'r byd gwaith, i gael cyflogaeth. Yn ogystal, mae Addewid Caerdydd wedi gweithio gyda chyflogwyr i greu interniaethau â chymorth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu Awtistiaeth.<br>• Mae llwybrau a chyfleoedd cyflogaeth â chymorth yn cael eu datblygu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG); yn 2023-24, hwyluswyd a chyflwynwyd 232 o yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith gan bartneriaid Addewid Caerdydd. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | Mae partneriaeth a chydweithio yn allweddol i lwyddiant Addewid Caerdydd. O ran meysydd her, weithiau gall cyflogwyr o sectorau medrus iawn fod â chanfyddiadau negyddol o bobl ifanc â rhwystrau a heriau; mae Addewid Caerdydd felly'n canolbwyntio ar ddangos arfer effeithiol i herio'r camsyniad hwn a sicrhau bod ystod o lwybrau yn cael eu datblygu ar gyfer pob person ifanc i gael gwaith da, sy'n talu'n dda, sy'n fedrus ac wedi'i sicrhau.<br><br>Mae datblygu a darparu dull wedi'i deilwra sy'n addas ar gyfer anghenion cyflogwr, ystod oedran a demograffig hefyd yn gymhleth, sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus o rwystrau a heriau unigol sy'n wynebu pob person ifanc. Mae dull un ateb sy'n addas i bawb yn anwybyddu amgylchiadau unigryw pob unigolyn, sy'n golygu ei bod yn hanfodol creu atebion personoledig sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol.<br><br>Ar ben hynny, yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu Addewid Caerdydd yw cyllid. Mae Addewid Caerdydd yn cael ei ariannu bron yn gyfan gwbl drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2025, gan roi'r fenter mewn perygl o beidio â symud ymlaen y tu hwnt i'r pwynt hwn.<br><br>Wrth edrych ymlaen, mae'r blaenoriaethau ar gyfer Addewid Caerdydd ar gyfer 2024-2026 yn cynnwys:<br><br>1. **Cymorth i Bartneriaid:** Grymuso partneriaid i wella profiadau dysgu i blant a phobl ifanc.<br>2. **Profiadau o Waith**: Meithrin llwybrau gyrfa ystyrlon ar gyfer plant a phobl ifanc.<br>3. **Llwybrau Dysgu:** Grymuso pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf.<br>4. **Gwerth Cymdeithasol:** Sicrhau'r buddion mwyaf posib i blant a phobl ifanc o gontractau nwyddau a gwasanaethau ar draws Cyngor Caerdydd a thu hwnt.<br>5. **Plant a Phobl Ifanc sydd ei angen fwyaf:** Creu llwybrau at lwyddiant i bobl ifanc sy'n wynebu'r rhwystrau a'r heriau mwyaf arwyddocaol i gynnydd. |

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth</th><th>Diweddariad</th></tr>
<tr><td>Datblygu dulliau arloesol yn gynnar i nodi’r rheini sy’n agored i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNPau), gan roi ymyriadau ataliol, amlasiantaethol ar waith i gefnogi plant a theuluoedd cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng.</td><td>Mae dulliau arloesol o adnabod y rheini sydd mewn perygl o gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (PNPau) yn cael eu datblygu drwy wasanaethau Cymorth Cynnar:<br><br>• Mae'r offeryn 'Meddwl Gyda'n Gilydd', sy'n cefnogi’r gwaith o ddatblygu systemau gofal a chymorth gwell o gwmpas pobl ag anawsterau cymhleth ac sy’n cyd-ddigwydd, yn cael ei ddefnyddio i hwyluso dull mwy cydgysylltiedig a chydweithredol o ymdrin â'r ffordd y caiff teuluoedd eu cefnogi. Cynhaliwyd 426 o sgyrsiau Meddwl Gyda'n Gilydd yn 2023-24, gan gynnwys ymarferwyr o asiantaethau lluosog[2]. Mae'r dull hwn yn galluogi pryderon i gael eu nodi’n gynnar, gydag ymyrraeth integredig briodol sy'n lleihau'r angen am atgyfeiriadau pellach at wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.<br><br>• Ym mis Gorffennaf 2023, darparwyd cyllid drwy'r grant Ysgolion â Ffocws Cymunedol, er mwyn cychwyn cynllun peilot yng nghlwstwr ysgolion Gorllewin Caerdydd i wella mynediad at fesurau atal a chymorth ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r cyllid wedi galluogi Swyddog Cyswllt ac Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd[3] amser llawn i gael eu lleoli yn y clwstwr. Rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024, cafodd y Swyddog Cyswllt 117 o gysylltiadau â rhieni neu ofalwyr plant, gan arwain at 49 o atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth uniongyrchol, wrth i’r Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd dderbyn atgyfeiriadau yn ymwneud â 32 o deuluoedd.<br><br>• Mae'r Gwasanaeth Rhieni a Mwy a arweinir gan Seicoleg yn dîm amlasiantaethol yng Ngwasanaethau Rhianta Caerdydd, gydag arbenigedd mewn cefnogi a chryfhau'r berthynas bwysig rhwng babanod a'u rhieni[4]. Yn 2023-24, sefydlwyd cyfarfodydd llunio ar y cyd bob pythefnos rhwng gwasanaethau allweddol, er mwyn deall a bodloni anghenion cymorth mamau a babanod heb eu geni yn well. Yn 2023-24, hwyluswyd 27 o gyfarfod llunio ar y cyd, a chynhaliwyd 14 o ymyriadau rhwng rhieni a babanod. Yn ogystal, mae 109 o sesiynau clinigol wedi'u cynnal gyda theuluoedd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth.<br><br>• Mae Rhianta Caerdydd a Gwasanaeth Lles Teuluoedd Barnardo's yn derbyn atgyfeiriadau drwy Wasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd. Yn ystod y pandemig, darganfuwyd bod tua 15-20 % o atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan bob gwasanaeth yn unigol, yn atgyfeiriadau deuol i'r ddau wasanaeth ar yr un pryd. Ers hynny, sefydlwyd dull llunio ar y cyd,<br><br>2 Er enghraifft, Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd, Rhianta Caerdydd, Ymarferwyr Iechyd Meddwl Emosiynol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymwelwyr Iechyd a Gwasanaeth Lles Teuluoedd Barnardo’s.<br>3 Mae'r Swyddog Cyswllt yn asesu angen ac yn nodi cymorth priodol, gan gynnwys atgyfeiriadau at ystod o wasanaethau cymorth o fewn Cymorth Cynnar ac asiantaethau partner eraill. Mae'r Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd yn darparu ymyrraeth fwy uniongyrchol a phenodol, gan nodi ac asesu anghenion lles y teulu cyfan.<br>4 Mae hyn yn cynnwys gofalwyr maeth, mam-guod a thad-cuod neu eraill a allai fod yn y rôl hon.</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
| --- | --- |
| | gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn wythnosol i sicrhau bod y cymorth a gynigir yn cael ei gydlynu ac i leihau dyblygu gwaith yn ddiangen. Yn 2023-24, derbyniwyd 192 o atgyfeiriadau i'r cyfarfodydd llunio ar y cyd, gyda 98 % o rieni yn nodi eu bod yn fodlon iawn neu'n hynod fodlon bod anghenion eu teulu wedi cael eu deall. Wrth edrych ymlaen, bydd Gweithwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol Cymorth Cynnar y GIG hefyd yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd llunio ar y cyd.<br><br>Ar ben hynny, mae Canolfan Datblygu ac Achredu'r Gweithlu Cymorth Cynnar yn ymroddedig i wella sgiliau ac ymarfer gofal plant ac ymarferwyr Cymorth Cynnar ar draws Caerdydd, gyda chyrsiau penodol yn ymwneud ag atal PNPau.<br><br>Datblygwyd Cyfrifiannell Osgoi Costau Cymorth Cynnar, sy'n darparu'r arbedion costau ataliol ar gyfer darpariaeth cymorth cynnar yng Nghaerdydd. Mae cyfrifiadau osgoi / arbed costau yn cael eu cynnwys mewn fframweithiau ymarfer ac adrodd dyddiol. Amcangyfrifir bod £9,515,734.30 wedi'i arbed yn 2023-24. |
| Darparu dull gweithredu meithringar, grymusol, diogel a dibynadwy o ran lles emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, gwella gwasanaethau ataliol a chefnogi plant sy'n cysylltu mewn trallod seicolegol acíwt. **(Arweinydd Strategol: BPRh)** | Mae amrywiaeth o fentrau yn cael eu datblygu i gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys plant sydd mewn trallod seicolegol acíwt, drwy raglen Dechrau'n Dda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro. Er enghraifft:<br><br>• Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd, Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu model gofal newydd, gan ddarparu cymorth uniongyrchol i bobl ifanc sydd mewn trallod acíwt a seicolegol, yn ogystal â'u teuluoedd, sy'n defnyddio Gwasanaeth Goleudy[5]. Wrth edrych ymlaen, y bwriad yw recriwtio tîm o weithwyr (33 Cyfwerth ag Amser Cyflawn) gan ddefnyddio cyllid craidd a chyllid o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (CIR). Bydd y gweithwyr hyn yn darparu model cymorth hybrid i blant a phobl ifanc ar draws ystod o leoliadau cymunedol, preswyl ac ysbytai i sicrhau cefnogaeth gyson sy'n hwyluso sefydlogi. Byddant yn cydweithio â'r tîm iechyd o staff sydd eisoes ar waith, i ddarparu cymorth therapiwtig i bobl ifanc.<br><br>• Mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu defnyddio cyllid cyfalaf BPRh a sicrhawyd yn flaenorol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Gwasanaeth Goleudy ymhellach, gan gynnwys datblygu adeilad ar gyfer y Gwasanaeth yn Llaneirwg. Bydd hyn yn cefnogi tîm amlasiantaeth a bydd yn ategu datblygiad y model cymorth hybrid, yn ogystal ag alinio â nodau Strategaeth Llety Gwasanaethau Plant Caerdydd.<br><br>• Mae cais Cronfa Tai â Gofal ar gyfer adeilad Porthdy'r Goleudy yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Bydd hyn yn darparu opsiwn llety diogel i bobl ifanc<br><br>5 Mae tîm Goleudy yn cefnogi pobl ifanc sy'n profi lefelau uchel o drallod, y mae llawer ohonynt wedi ceisio diogelwch yn Adran Achosion Brys y Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm yn cynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Iechyd Meddwl Graddedig, Seicolegwyr Clinigol, Cynorthwywyr Gwaith Cymdeithasol a Chydlynwyr Addysg, gan weithio mewn partneriaeth agos â chydweithwyr Gwasanaethau Plant yng Nghaerdydd a'r Fro. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
| --- | --- |
| | sydd mewn trallod, lle nad oes opsiynau eraill ar gael ar draws y system.<br>• Fel rhan o'r dull Dim Drws Anghywir, mae cyfarfodydd amlasiantaeth wythnosol wedi'u sefydlu i nodi rhannau o'r system a allai ddiwallu anghenion cymorth iechyd meddwl a lles a nodwyd gan deulu orau. Yng Nghaerdydd, mae hyn yn cynnwys sylwadau gan Cymorth Cynnar, Gwasanaeth Lles Teuluoedd Barnardo's, arweinydd gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (UPM) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r tîm Niwroamrywiaeth.<br>• Sicrhawyd cyllid ychwanegol (drwy'r rhaglen Braenaru Blynyddoedd Cynnar) i ddarparu peilot sy'n cefnogi gwaith perthynas iechyd meddwl amenedigol/babanod a rhieni babanod ar draws y rhanbarth. Mae canlyniadau'n cynnwys cynnydd mewn trafodaethau amlasiantaethol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau'n well, a chynnydd mewn mynediad i ymarferwyr at hyfforddiant a chymorth, gyda 97 % o ymarferwyr yn nodi gwell sgiliau wrth gefnogi rhieni ag anghenion iechyd meddwl amenedigol.<br>• Sicrhawyd cyllid ychwanegol (CIR) rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2027, i gadw seicolegydd addysg i weithio ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro, a gynhelir yn nhîm Rhieni a Mwy Caerdydd, i ddarparu cymorth perthynas rhwng rhieni a babanod o fewn y 1000 Diwrnod Cyntaf yng Nghaerdydd a chefnogi datblygiad gwasanaethau ym Mro Morgannwg.<br>• Mae staff o Dîm Enfys[6], ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ogystal â staff o Wasanaethau Plant Cyngor Caerdydd, wedi parhau i gydweithio i ddarparu cymorth therapiwtig gwybodus yn seicolegol i blant Caerdydd sydd wedi'u mabwysiadu neu sy'n derbyn gofal. Mae'r buddion a ddarperir yn cynnwys mwy o oriau goruchwylio, gan gynnig mwy o adnoddau clinigol i ddarparu cymorth uniongyrchol i blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Yn 2023/24, cynigiwyd cyfanswm o 713 o sesiynau ymgynghori i staff Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd gan swydd Seicoleg a Therapydd Galwedigaethol Enfys, ac ers mis Awst 2023, mae ail Therapydd Galwedigaethol Enfys wedi ei gyflogi i gynnig cyngor a chymorth i staff gofal cymdeithasol ledled Caerdydd a'r Fro.<br>Wrth symud ymlaen, bydd arweinwyr Dechrau'n Dda ar draws y rhanbarth yn gweithio i ddiffinio ymhellach y blaenoriaethau ar gyfer goruchwylio partneriaethau, trwy adolygu cynnydd cyfredol prosiectau presennol a sicrhau bod cwmpas rhaglenni gwaith rhanbarthol yn cynnwys blaenoriaethau sefydliadol unigol a nodwyd eisoes. Bydd cynllun cyflawni diwygiedig yn cael ei sefydlu ar gyfer 2024/25 ymlaen.<br>6 Mae'r tîm yn cynnwys seicoleg a therapi galwedigaethol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sydd wedi'u mabwysiadu, ac sydd ar ffiniau gofal. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cynyddu nifer y plant sy'n derbyn brechiadau/imiwneiddiadau yng Nghaerdydd, yn enwedig yn y cymunedau/grwpiau economaidd-gymdeithasol mwyaf difreintiedig, trwy ddarparu dull wedi'i dargedu a arweinir gan ddata. | Mae data 2022 i 2023 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn nodi, ar draws pob grŵp oedran yng Nghaerdydd a'r Fro, bod nifer y bobl sy'n derbyn brechiadau, sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, yn ogystal ag ymysg cymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn isel.<br><br>Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n darparu canllawiau ar frechu ac imiwneiddio, wedi gosod targed frechu MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela) o 90 % ym mhob ysgol yng Nghymru sydd â mwy na 50 o ddisgyblion. Mae hyn yn erbyn cefndir o achosion gweithredol o'r frech goch yn y DU, yn ardal Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain, sydd wedi lledaenu i Went yn ddiweddar. Er mwyn mynd i'r afael â'r targed, mae ysgolion ledled Caerdydd sydd â nifer arbennig o isel o blant sy'n derbyn brechiadau MMR, wedi'u nodi. Mae ymweliadau safle wedi'u cynnal yn y rhan fwyaf o ysgolion sydd wedi'u nodi, gyda brechlynnau yn cael eu cynnig yn rhagweithiol i ddisgyblion heb eu brechu. Ar ben hynny, rhoddwyd cyflwyniadau mewn cynadleddau Penaethiaid, i danlinellu'r bygythiad difrifol o achosion o'r frech goch i barhad addysg ac amlygu pwysigrwydd cydweithio. Yn ogystal, mae cyfarfodydd un i un wedi'u trefnu gydag ysgolion uwchradd mwy sydd â nifer arbennig o isel o blant sy'n derbyn brechiadau a phoblogaeth uchel o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.<br><br>Fodd bynnag, cafwyd anhawster sylweddol wrth gysylltu â rhieni, sydd wedi trosi i ganran isel iawn o gydsyniad ar sail gwybodaeth yn cael ei gyflawni a llai o blant yn derbyn brechiadau na'r disgwyl. Mae ymdrech o'r newydd ar y gweill i adolygu a diwygio'r dull gweithredu, a sefydlu gwell llwybrau i sicrhau gwybodaeth, addysg a chydsyniad ynghylch y brechiad MMR.<br><br>Wrth edrych ymlaen, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi mynegi nod strategol i ddatblygu Hyrwyddwyr Brechu yn y gymuned, yn seiliedig ar fodel a arloeswyd yn Sandwell yn ystod y pandemig. Mae prosiect peilot cychwynnol wedi'i ddatblygu gyda grŵp o rieni, sy'n cynrychioli gwahanol ysgolion. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau o'r boblogaeth lleiafrifoedd ethnig sy'n siarad sawl iaith rhyngddynt. Y nod yw brwydro yn erbyn camwybodaeth a darparu ymwybyddiaeth ffeithiol gywir am bwysigrwydd brechlynnau, eu diogelwch a'r risgiau sy'n gysylltiedig â than-imiwneiddio mewn ysgolion a phoblogaethau sy'n agored i niwed. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cynyddu canran y plant a phobl ifanc sydd â phwysau iach a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, drwy gyflawni Strategaeth Symud Mwy Bwyta'n Iach 2020-2023. | Mae'r rhaglen Symud Mwy, Bwyta'n Iach (SMBI) wedi parhau i gael ei gyrru ymlaen gan bartneriaid, gan alluogi ac ymgorffori cyfleoedd ar gyfer symud a bwyd da ar draws cymunedau Caerdydd, mewn lleoliadau ac yn yr amgylchedd. O safbwynt plant a phobl ifanc:<br>• Mae 6 lleoliad arall wedi'u recriwtio i Gynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Caerdydd (CCYIaCh), gan ddod â'r cyfanswm i 56.<br>• Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ym mis Mawrth 2024, wedi'i anelu at warchodwyr plant ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, gan rannu syniadau ar gyfer symud a bwyd da.<br>• Mae rhaglenni grŵp teulu NYLO (Maeth i'ch Un Bach) wedi cyrraedd 115 o deuluoedd, gydag ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnal.<br>• Mae sesiynau hyfforddi newydd wedi'u datblygu a'u darparu gan dîm NYLO, gan gynnwys 'Gweithdy Bwyd a Maetheg' ar gyfer y tîm Cymorth Cynnar/Porth Teuluoedd a hyfforddiant 'Codi Pwnc Pwysau' ar gyfer y Tîm Nyrsio Ysgol.<br>• Mae cynllun peilot Plant a Theuluoedd (PIPYN) ar y gweill ar hyn o bryd yn Arc Ddeheuol Caerdydd, gan roi cymorth i deuluoedd ynghylch bwyta'n iachach ar gyllideb. Wrth edrych ymlaen, bydd gwaith yn cael ei wneud i alinio'r peilot â'r dull system gyfan ehangach.<br>• Mae sesiynau coginio i'r teulu 'Plate up with Pipyn' wedi eu treialu mewn ysgolion lleol, gan gefnogi teuluoedd i goginio gyda'i gilydd.<br>• Cefnogwyd 41 lleoliad i ennill Gwobr Byrbrydau Iach Safon Aur; mae holl leoliadau Gofal Plant Dechrau'n Deg Caerdydd bellach wedi ennill y wobr.<br>Ar ben hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i adolygu'r fframwaith ar gyfer SMBI (2024-30). Er mwyn llywio'r fframwaith diwygiedig, cynhaliwyd gweithdai, gan ddod ag ystod eang o bartneriaid ynghyd ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gyda ffocws penodol ar ddatblygu'r weledigaeth a'r nod ar gyfer plant a theuluoedd.<br>I gael diweddariad pellach ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â Symud Mwy, Bwyta'n Iach, cyfeiriwch at Amcan Lles 3: Cefnogi pobl allan o dlodi. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy’n dechrau smygu, a rhoi terfyn ar hyn yn y pen draw. | Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg i gyflawni ffigur nifer yr achosion o smygu o 5 %[7] neu lai erbyn 2030; ar hyn o bryd, 13 % yw ffigur nifer yr achosion. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae gwaith yn mynd rhagddo, mewn partneriaeth, i gyflawni camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n atal pobl rhag dechrau smygu a helpu smygwyr presennol i roi'r gorau iddi.<br><br>O safbwynt plant a phobl ifanc, dechreuodd Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus pwrpasol, sy'n canolbwyntio ar atal smygu ymhlith pobl ifanc, ei swydd ym mis Mai 2024. Gan weithio'n agos gydag ysgolion, gwasanaethau ieuenctid, a phartneriaid fel timau Ysgolion Iach, bydd yr Ymarferydd yn arwain ar y gwaith o atal plant rhag dechrau smygu a fêpio, ac yn darparu addysg atal smygu.<br><br>Wrth symud ymlaen, rhoddir ffocws penodol ar leihau nifer y bobl sy'n dechrau smygu.<br><br>I gael diweddariad pellach ar y gwaith sy'n cael ei wneud i leihau nifer yr achosion o smygu, cyfeiriwch at Amcan Lles 3: Cefnogi pobl allan o dlodi. |
| Datblygu model gofal integredig - a gwella'r cynnig cymorth - i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth sy’n cyd-ddigwydd. **(Arweinydd Strategol: BPRh)** | Trwy ei raglen Dechrau'n Dda, mae'r BPRh, gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, yn cefnogi nifer o fentrau sy'n gwella'r cynnig cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth sy'n cyd-ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys:<br>• Cynllunio ar gyfer fy nyfodol, dull amlasiantaethol rhanbarthol o bontio'n ddi-dor i fod yn oedolyn<br>• Gwasanaethau Anableddau Dysgu Plant<br>• Atal ac Ymyrryd yn Gynnar i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)<br><br>Mae hefyd yn cynnwys rhaglen Braenaru’r Blynyddoedd Cynnar rhanbarthol, sydd wedi gwella canlyniadau i fabanod a phlant sydd ag anghenion ychwanegol sy'n dod i'r amlwg yng Nghaerdydd drwy ddarparu tair ffrwd waith:<br>1. **Gwella mynediad at gymorth wrth aros - ymateb i'r amseroedd aros ar gyfer asesiad Niwroddatblygiadol**<br><br>Yn 2023/24, cefnogodd cysylltwyr cymunedol, gan weithio ar draws y rhanbarth, 137 o deuluoedd ar y rhestr aros ar gyfer asesiad Niwroddatblygiadol, ar gyfer plant dan saith oed. Darparwyd 12 sesiwn wybodaeth a 33 sesiwn thema ar draws y rhanbarth, gan ddefnyddio lleoliadau cymunedol, ac mae teuluoedd wedi adrodd am ganlyniadau cadarnhaol: |

7 Deellir mai dyma'r trothwy lle gallai'r epidemig tybaco ddod yn anghynaliadwy.

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
| --- | --- |
| | • dywedodd 84 % o'r teuluoedd a oedd yn bresennol mewn sesiwn gyswllt bod ganddynt ddealltwriaeth lawer gwell o Niwroamrywiaeth.<br>• Dywedodd 84 % o deuluoedd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well yn dilyn sesiwn gysylltu.<br>• Roedd 92 % o deuluoedd yn teimlo'n fwy ymwybodol o wasanaethau a allai eu cefnogi.<br>• Yn ogystal, roedd gan 49 o deuluoedd fynediad at EPAtS (Dulliau Cadarnhaol Cynnar ar gyfer Cynorthwyo)[8], gyda 20 o grwpiau wedi'u cyflwyno. Mae 10 rhiant a 10 ymarferydd wedi'u hyfforddi mewn hwyluso i gefnogi cynaliadwyedd cyflenwi. Nododd 95 % o rieni eu bod wedi gwella eu lles emosiynol yn dilyn EPAtS.<br>2. **Cryfhau'r cynnig gofal plant – parodrwydd ADY**<br>3. **Cefnogi'r cyfnod pontio blynyddoedd cynnar i addysg i blant sy'n derbyn gofal gydag ADY.**<br>Mae diwedd trefniadau cyllido o fewn rhaglen Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar wedi lleihau effaith rhai o'r meysydd gwaith hyn, yn fwyaf nodedig o fewn y gofod iechyd meddwl amenedigol a pherthynas rhieni a babanod. Er bod cyllid wedi'i sicrhau i gadw rhai elfennau cyflenwi, bydd y gwaith sy'n weddill yn cael ei atal.<br>Wrth edrych ymlaen, mae'r BPRh wedi cynnig blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer Dechrau'n Dda sy'n adeiladu ar egwyddorion y 1000 Diwrnod Cyntaf, gan sicrhau bod ffocws yn parhau ar atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer babanod, plant a'u teuluoedd. |

8 Caiff Dulliau Cadarnhaol Cynnar ar gyfer Cynorthwyo (EPAtS) eu darparu drwy'r Rhaglen Fraenaru Blynyddoedd Cynnar a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, gan gefnogi rhieni sydd â phlant ifanc ag oedi cyffredinol neu anghenion ychwanegol sy'n dod i'r amlwg. Cyflwynir y rhaglen hon, sydd wedi'i chynhyrchu ar y cyd, mewn partneriaeth â rhieni, a'i hwyluso gan dimau Cymorth Cynnar, staff iechyd a gweithlu rhianta ar draws y rhanbarth.

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cyflawni cymunedau diogel a chefnogol i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel rhag niwed trwy:<br>• Atal a lleihau troseddu gan blant a phobl ifanc drwy gyflawni'r [Strategaeth Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd]() ar gyfer cyfiawnder ieuenctid.<br>• Mynd i'r afael â thrais difrifol gan bobl ifanc drwy ddatblygu dull cadarn, integredig sy'n cael ei arwain gan ddata at wasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio gyda phobl ifanc. | **Atal a lleihau troseddu gan blant a phobl ifanc drwy gyflawni'r Strategaeth Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd.**<br>Ym mis Medi 2022, cyhoeddwyd Strategaeth 'Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd (2022-24)', Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd. Mae'r strategaeth yn cynnwys pedwar maes:<br>1. Gweithio gyda phlant, teuluoedd a phartneriaid<br>2. Dadansoddi a newid systemau<br>3. Dewisiadau gwell, lleoedd mwy diogel<br>4. Gwneud iddo ddigwydd: llywodraethu ac arweinyddiaeth<br>Gwnaed cynnydd sylweddol ym mhob un o'r meysydd hyn, yn enwedig mewn perthynas â dangos tystiolaeth o gyfranogiad plant a phobl ifanc, ennill adborth a defnyddio'r adborth hwn i lunio gwasanaethau ac ymyriadau ymhellach. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma gyda phlant a'u teuluoedd, gan ddeall pwysigrwydd gweithio mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar berthynas a'r model 'oedolyn y gellir ymddiried ynddo'. Yn sylfaenol, mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i sicrhau diogelwch pobl ifanc.<br>Mae Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cyfarfod bob chwarter, gyda phob cyfarfod yn cynnwys adolygiad o gamau gweithredu a'r gofrestr risg, yn ogystal â chraffu ar ddata perfformiad. Mae gan y Bwrdd Gadeirydd Annibynnol newydd a thîm rheoli sefydledig sy'n arwain drwy esiampl mewn perthynas ag ymarfer a sicrhau ansawdd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd ffocws ar recriwtio a chadw staff sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn.<br>Y gwasanaeth (Atal), Crossroad, yw'r maes gwaith prysuraf i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid o hyd, gyda meysydd cynnydd yn cynnwys:<br>• Mae'r nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf wedi gostwng i'r isaf y buodd erioed - 30 yn 2023/2024.<br>• Mae troseddau a chanlyniadau ar yr isaf y buont erioed - 51 o bobl ifanc, 103 o droseddau.<br>• Troseddau treisgar yw'r gyfran uchaf o droseddau o hyd, fodd bynnag, maent wedi gostwng dros gyfnod o 5 mlynedd o 112 i 39.<br>• Mae troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll wedi lleihau.<br>• Mae nifer yr unigolion sydd wedi'u rhoi yn y ddalfa yn parhau i fod yn isel iawn.<br>• Roedd cyfraddau aildroseddu yn 28.6 % yn 2023/24 - ymhell islaw'r targed o 40 %. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | Wrth symud ymlaen, bydd ffocws yn parhau i gael ei roi ar weithio mewn partneriaeth i gasglu data perthnasol mewn perthynas â thrais - nid troseddau yn unig, ond ymddygiadau, er mwyn gwneud atgyfeiriadau diogelu perthnasol, cyflwyno ffurflenni gwybodaeth am bartneriaid, cydnabod gwendidau mewn perthynas â cham-fanteisio a gweithio i darfu ar y rheini sy'n cam-fanteisio ar bobl ifanc.<br><br>**Mynd i'r afael â thrais difrifol gan bobl ifanc drwy ddatblygu dull cadarn, integredig sy'n cael ei arwain gan ddata at wasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio gyda phobl ifanc.**<br><br>Mae'r Strategaeth Atal Trais ddrafft yn nodi bod man lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn byw'n rhydd o effeithiau trais, yn flaenoriaeth. Mae'r Strategaeth yn nodi uchelgais i fod yn ystyriol o drawma, wedi'i arwain gan ddata, sy'n cydweithio mewn partneriaeth, ac i weithio gyda chymunedau. Mae'r Strategaeth yn nodi'r camau gweithredu canlynol, a fydd yn cael eu datblygu:<br><br>Datblygu gweithgareddau ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n hyrwyddo perthnasoedd teuluol cadarnhaol ac yn creu lle diogel cefnogol ar gyfer cysylltu ag eraill.<br><br>Nodi'r gwasanaethau cymorth a gynigir i grwpiau wedi'u targedu o blant a phobl ifanc y mae trais yn effeithio arnynt.<br><br>Cefnogi amrywiaeth o raglenni cymunedol cydlynol sy'n ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol gydag oedolion y gellir ymddiried ynddynt.<br><br>Cydweithio ag ysgolion a lleoliadau addysgol eraill ar yr amrywiaeth o ymyriadau ac adnoddau sy'n cefnogi gweithwyr proffesiynol.<br><br>Bydd y Strategaeth ddrafft yn cael ei chyhoeddi ym mis Medi 2024.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am y Strategaeth Atal Trais ddrafft, cyfeiriwch at Amcan Lles 4: Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus. |
| Nodi a chydnabod gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, am y cyfraniad hollbwysig maent yn ei wneud i'r gymuned a'r bobl maent yn gofalu amdanynt, a galluogi gofalwyr di-dâl i fyw bywyd law yn llaw â gofalu. **(Arweinydd Strategol: BPRh)** | Mae rhaglen Gofalwyr Di-dâl y BPRh yn parhau i ddatblygu, gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a Chyllid Seibiannau Byr.<br><br>Yn 2023, cyhoeddwyd Siarter Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a'r Fro. Mae'r Siarter yn amlinellu 8 ymrwymiad ar gyfer gofalwyr di-dâl yn y rhanbarth:<br><br>1. Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu nodi a'u cydnabod yn ein cymunedau.<br>2. Sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor cywir yn cael eu rhoi i ofalwyr di-dâl ar yr adeg gywir.<br>3. Gwella ansawdd y cymorth a ddarperir i ofalwyr di-dâl.<br>4. Datblygu a gwella sgiliau ein gweithlu i helpu gofalwyr di-dâl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | 5. Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gyfrannu at ofalu am bobl yn ein cymunedau a sicrhau bod gan ofalwyr di-dâl amser i wneud y pethau maen nhw'n eu mwynhau.<br>6. Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cefnogi mewn addysg a gwaith.<br>7. Gofyn i ofalwyr di-dâl ddweud wrthym beth yw eu barn.<br>8. Gwrando ar leisiau gofalwyr di-dâl i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a chymorth.<br><br>Mae'r ymrwymiadau hyn yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ac yn ailddatgan yr ymrwymiad ar draws partneriaid i nodi, cydnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, am eu rôl hanfodol wrth gadw pobl yn iach.<br><br>Mae meysydd eraill o lwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:<br>• Parhau i gyflwyno'r Porth Gofalwyr, a gafodd 1,378 o gysylltiadau â gofalwyr di-dâl i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio.<br>• Cefnogodd Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Caerdydd 64 o ofalwyr ifanc newydd gyda gweithgareddau grŵp a chymorth 1 i 1.<br>• Cefnogodd C3SC y gwaith o ddarparu Seibiannau Byr ar draws y rhanbarth, sydd wedi cefnogi 2,255 o ofalwyr di-dâl gyda chyfleoedd ar gyfer 'seibiannau byr' amrywiol a deinamig.<br>• Datblygodd Cyngor Caerdydd wasanaeth cymorth a chyfeirio 'Dinas Gofal' drwy gylchlythyr rheolaidd yn ogystal â thrwy gynnal grwpiau cymorth misol ledled y ddinas.<br><br>Dros y flwyddyn i ddod, bydd ffocws o'r newydd ar ddatblygu ymwybyddiaeth gofalwyr trwy achrediad a hyfforddiant sy'n Deall Gofalwyr, yn ogystal ag ymgysylltu'n ehangach â gofalwyr di-dâl trwy Senedd Gofalwyr Di-dâl ranbarthol. |

## Amcan Lles 2: Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hŷn

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth</th><th>Diweddariad</th></tr>
<tr><td>Sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal integredig, yn seiliedig ar ardal, sy'n canolbwyntio ar fodloni a gwella iechyd a lles y boblogaeth leol. (Arweinydd Strategol: BPRh)</td><td>Y rhaglen @Gartref, Heneiddio'n Dda, dan arweiniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yw'r cyfrwng cyflawni ar gyfer sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal integredig, lleol, sy'n canolbwyntio ar fodloni a gwella iechyd a lles y boblogaeth leol ac sy'n seiliedig ar uchelgeisiau 'Cymru Iachach.' Mae'r rhaglen yn dwyn ynghyd nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol gan gynnwys:
<ul>
<li>Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol</li>
<li>Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng</li>
<li>Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach</li>
<li>Llunio ein Lles i'r Dyfodol</li>
<li>Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn</li>
</ul>
Mae'r meysydd llwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:
<ul>
<li>Mabwysiadu model ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig - a ddatblygwyd gan y rhaglen strategol gofal sylfaenol - i helpu i fynegi'r rhaglen ac amlinellu meysydd gwaith allweddol.</li>
<li>Lansio gwasanaeth ymateb argyfwng newydd, Diogel@Gartref, wedi'i anelu'n benodol at gefnogi pobl i aros gartref os nad oes angen iddynt ddod i'r ysbyty. Mae'r prosiect yn defnyddio amrywiaeth o arbenigwyr o wahanol sefydliadau i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt. Dechreuodd y lansiad meddal cychwynnol ym mis Ionawr 2023, gyda chyfnod 2 ehangach wedi'i gynllunio ar gyfer 2024-25.</li>
<li>Parhau i ehangu gwaith tîm amlddisgyblaethol y clwstwr, gyda 7 clwstwr yn cynnal cyfarfodydd a Chanolfan Lles De-ddwyrain newydd yn agor yng Nghaerdydd i gefnogi pobl wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty.</li>
<li>Cynyddu nifer yr aseswyr dibynadwy ar draws Caerdydd a'r Fro i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn brydlon a bod oedi'n cael ei leihau; yn ogystal â chefnogi'r rheini yn y gymuned sydd ag atebion gofal amgen, fel gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg.</li>
<li>Gan adeiladu ar lwyddiant y Ganolfan Ryddhau Integredig i gefnogi'r gwaith o ryddhau pobl o'r ysbyty a sicrhau trosglwyddiad effeithlon i dimau cymunedol, gan rymuso hyder dinasyddion i adeiladu ar gyflawni eu nodau.</li>
<li>Datblygiad parhaus llwybrau mynediad cymunedol i wybodaeth a gwasanaethau, gyda Phwynt Cyswllt Cyntaf Caerdydd yn cefnogi dros 28,000 o gysylltiadau.</li>
</ul>
Dros y flwyddyn i ddod, rhoddir ffocws ar ehangu'r model clwstwr ymhellach i wella'r ffordd y mae meddygon teulu a gwasanaethau eraill mewn ardal yn gweithio'n well gyda'i gilydd i gefnogi'r gymuned, yn ogystal ag adeiladu ar gam cyntaf y gwasanaeth ymateb i argyfwng, Diogel@Gartref.</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn, gan sicrhau y gall pobl hŷn fwynhau pob agwedd ar fywyd a'u bod yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau i wella eu lles ac i gyfoethogi eu bywydau. | Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn cyntaf ar ddiwedd 2023 ac fe'i cyflwynwyd i Sefydliad Iechyd y Byd a'i gydnabod ganddo. Mae'r adroddiad yn nodi wyth ymrwymiad sy'n dda i bobl hŷn y ddinas ac yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn eu herbyn hyd yma. Mae rhai cyflawniadau allweddol yn cynnwys creu Gwefan Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn, gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i gynorthwyo mewn amrywiol brosiectau ymchwil sy'n gysylltiedig ag oedran, a sefydlu Fforwm Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn. Mae'r Fforwm yn dwyn ynghyd bobl hŷn, grwpiau pobl hŷn a phartneriaid sy'n dda i bobl hŷn i annog cyfleoedd ar gyfer adborth, cyd-greu a chydweithio, ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae meysydd pellach o gynnydd nodedig yn cynnwys cefnogi pobl hŷn i mewn i waith gyda phenodi mentoriaid cyflogaeth a darparu hyfforddiant mewn pynciau fel sgiliau digidol, gwasanaeth cwsmeriaid, a chymorth cyntaf.<br><br>Wrth edrych ymlaen, mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:<br><br>• Datblygu Cynllun Gweithredu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn newydd. Bydd ymgysylltu yn cael ei wneud gyda phobl hŷn, yn ogystal â chyda phartneriaid/rhanddeiliaid allweddol eraill, i ddeall blaenoriaethau.<br>• Annog partneriaid, rhanddeiliaid a busnesau i addo dod yn Gyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn, â chysylltu â'r Centre for Ageing Better.<br>• Gwella argaeledd cyngor sy'n dda i bobl hŷn. Gan gydnabod nad yw'r dull 'Dewis Digidol' yn gydnaws ag egwyddorion sy'n dda i bobl hŷn, mae angen ymchwilio a chynnal sianeli cyfathrebu ychwanegol. Yn ogystal, mae angen ymchwilio i wella argaeledd adnoddau mewn ieithoedd cymunedol.<br>• Gwneud yn fawr o sianeli cyfathrebu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn i gyflawni, er enghraifft, mentrau iechyd wedi'u targedu sy'n effeithio ar bobl hŷn.<br>• Cefnogi cyfranogiad pobl hŷn mewn cymunedau drwy greu cyfleoedd gwirfoddoli. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Gweithio tuag at ddod yn Ddinas sy'n Deall Dementia sy'n helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd i ffynnu ac sy'n sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a phenodol yn cael eu hail-lunio i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad teg ac amserol i ddiagnosis a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir yn lleol, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o ddementia a ffyrdd o leihau risg. **(Arweinydd Strategol: BPRh)** | Nod y rhaglen Dementia Heneiddio'n Dda, dan arweiniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yw codi ymwybyddiaeth o ddementia a'i benderfynyddion wrth weithio i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned sy'n galluogi mynediad teg ac amserol at ddiagnosis a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r rhaglen yn helpu i gysylltu a chefnogi dysgu ar draws gwasanaethau dementia yng Nghaerdydd a'r Fro drwy ganolbwyntio ar:<br>• Gymunedau tosturiol sy'n ymwybodol o'u ffactorau risg drwy ymgyrch gydlynol o godi ymwybyddiaeth a nifer gynyddol o gymunedau 'sy'n deall dementia'.<br>• Gofal a chymorth yn y gymuned trwy gynyddu eiriolaeth wrth ddylunio cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a datblygiadau gwasanaeth.<br>• Llwybrau clir yn y gymuned ar gyfer asesu a diagnosis amserol gyda chymorth ôl-ddiagnostig cysylltiedig.<br>• Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia.<br>• Dull rhanbarthol o ddysgu a datblygu gofal dementia.<br>• Mesur a meincnodi cynnydd gyda phobl y mae dementia yn effeithio arnynt.<br>• Cynllun Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chydgynhyrchu, i ymgysylltu â'r rheini y mae Dementia yn effeithio arnynt a'r rheini heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r meysydd llwyddiant yn cynnwys y canlynol:<br>• Datblygodd partneriaid Deall Dementia Caerdydd, ochr yn ochr â phartneriaid Y Fro Dementia-Gyfeillgar a chydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, lyfryn gwybodaeth ar sut i leihau eich risg o ddatblygu dementia hyd at 40 % . Dyma oedd y cyntaf o'i fath yng Nghymru ac fe'i lansiwyd yn ystod Wythnos Gweithredu ar Ddementia ym mis Mai 2024.<br>• Mae cydgynhyrchu ac ymgysylltu wedi datblygu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda sefydlu'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dementia, a chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ('Agor Drysau') yn cael eu cynnal. Bu partneriaid hefyd yn cydgynhyrchu ymgysylltiad iechyd meddwl - 'EmPower Mind' - yn Hyb Llaneirwg.<br>• Rhoi'r offeryn hunanarchwilio deall dementia ar waith mewn wardiau ysbytai. Mae nifer o wardiau hefyd wedi rhoi Ymgyrch John ar waith i gefnogi gofalwyr pobl â dementia.<br>• Mae'r model newydd ar gyfer datblygu sefydliadau sy'n deall Dementia wedi gweld cynnydd enfawr yn y nifer sy'n manteisio arno, gyda 403 o sefydliadau'n addo helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu gwneud y pethau maen nhw'n eu mwynhau yn eu cymunedau eu hunain.<br>• Mae adolygiad a mapio gwasanaethau gofal a chymorth cymunedol - sydd wedi darparu 7,031 o gysylltiadau dros y flwyddyn ddiwethaf - wedi ei gynnal, i gadw pobl yn annibynnol ac yn iach yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.<br>Dros y flwyddyn i ddod, rhoddir ffocws ar gysylltu gwasanaethau gofal a chymorth cymunedol ymhellach, yn ogystal â hyrwyddo'r llawlyfr atal i rymuso pobl i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd eu hunain a lleihau eu risg o ddatblygu dementia. |

## Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth</th><th>Diweddariad</th></tr>
<tr><td>Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat ac erbyn mis Tachwedd 2025:<br>• Cynyddu nifer y cyflogwyr Cyflog Byw achrededig ledled y ddinas i 300.<br>• Cynyddu nifer y gweithwyr sydd wedi cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol i 13,900.</td><td>Mae Caerdydd yn parhau i fod yn un o ddinasoedd mwyaf blaenllaw'r DU o ran hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gyda'r Bartneriaeth Dinas Cyflog Byw yn parhau i yrru'r agenda yng Nghaerdydd, gyda Chynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru a'i gyhoeddi ym mis Mai 2024.<br><br>Yn 2017, nid oedd 20.7 % o'r gweithlu yng Nghaerdydd - tua 42,000 o bobl - yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol; mae canlyniadau arolwg diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod hyn bellach wedi gostwng i 8.2 %, neu 20,000 o bobl.<br><br>Ers mis Mai 2024, mae 224 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd, sy'n cyflogi dros 77,730 o weithwyr, y mae dros 13,330 ohonynt wedi cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Ar ben hynny, ym mis Mai 2024, cyfrifodd Prifysgol Caerdydd, ers 2012, o ganlyniad i gyflogau cyflogeion yn cael eu codi i'r Cyflog Byw Gwirioneddol, fod £82.7 miliwn pellach wedi'i ychwanegu at economi Caerdydd.<br><br>Mae'r hinsawdd economaidd ehangach yn parhau i fod yn heriol, fodd bynnag; gwnaeth 15 sefydliad achrededig yng Nghaerdydd roi'r gorau i fasnachu yn 2023/24. Er i 36 o sefydliadau newydd ennill achrediad yn yr un cyfnod, arweiniodd hyn at gynnydd net o 20 o sefydliadau. O ganlyniad, mae cyrraedd y targed o 300 o gyflogwyr achrededig erbyn mis Tachwedd 2025 yn ymddangos yn heriol.<br><br>Mae Partneriaeth Dinas Cyflog Byw yn datblygu strategaeth sydd â'r nod o annog mwy o sefydliadau o'r sectorau manwerthu a lletygarwch i weld buddion busnes achredu a gofyn iddynt ystyried achredu. Ar hyn o bryd, dim ond 6 busnes o'r sectorau hyn sydd wedi'u hachredu. Mae sectorau targed eraill yn cynnwys meddygfeydd a phractisau deintyddion.</td></tr>
<tr><td>Datblygu dulliau arloesol a arweinir gan ddata i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chynyddu gwaith atal yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw presennol, gan gynnwys:<br>• Gwella cyfraddau brechu ac imiwneiddio plant yng Nghaerdydd<br>• Gwella'r nifer sy'n manteisio ar sgrinio'r coluddyn<br>• Lleihau nifer y bobl sy'n smygu</td><td>Gwella cyfraddau brechu ac imiwneiddio plant yng Nghaerdydd<br><br>Mae data 2022 i 2023 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn nodi, ar draws pob grŵp oedran yng Nghaerdydd a'r Fro, bod nifer y bobl sy'n derbyn brechiadau, sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, yn ogystal ag ymysg cymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn isel.<br><br>Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n darparu canllawiau ar frechu ac imiwneiddio, wedi gosod targed frechu MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela) o 90 % ym mhob ysgol yng Nghymru sydd â mwy na 50 o ddisgyblion. Mae hyn yn erbyn cefndir o achosion gweithredol o'r frech goch yn y DU, yn ardal Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain, sydd wedi lledaenu i Went yn ddiweddar. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae dull wedi'i dargedu yn cael ei roi ar waith, gan weithio gydag ysgolion ledled Caerdydd sydd â nifer arbennig o isel o blant sy'n derbyn brechiadau MMR.<br><br>I gael diweddariad manylach ar wella brechiadau plentyndod a nifer y plant sy'n cael eu himiwneiddio yng Nghaerdydd, cyfeiriwch at Amcan Lles 1: Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu.</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | **Gwella'r nifer sy'n manteisio ar sgrinio'r coluddyn**<br><br>Mae'r data diweddaraf ar gyfer y nifer sy'n manteisio ar sgrinio'r coluddyn yn dangos bod y nifer honno wedi cynyddu o 60 % yn 2020/21 i 65.4 % yn 2021/22 yng Nghaerdydd.<br><br>Mae Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cydweithio i rannu negeseuon hyrwyddo sgrinio mewn ffordd gydgysylltiedig ar draws sianeli cyfathrebu. Ar ben hynny, casglwyd data a thystiolaeth i nodi'r grwpiau poblogaeth a'r ardaloedd hynny sydd â'r nifer isaf o bobl sy'n cael eu sgrinio. Mae hyn yn dangos patrymau cyson o nifer is o bobl yn manteisio ar sgrinio'r coluddyn sy'n gysylltiedig â grwpiau oedran iau (h.y. y rheini dan 60 oed), dynion, pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n profi amddifadedd a rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn hefyd wedi eu mapio.<br><br>Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl sy'n manteisio ar gael eu sgrinio, mae'r nifer hwn wedi aros yn sefydlog neu hyd yn oed wedi lleihau mewn rhai rhannau o'r ddinas, yn fwyaf nodedig yn ardaloedd clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd a De-ddwyrain Caerdydd. Mae blaenoriaethu imiwneiddio, tybaco a phwysau iach, fel rhan o'r Rhaglen Cynyddu Gwaith Atal, wedi golygu llai o ffocws ar hyrwyddo sgrinio'r coluddyn.<br><br>Wrth edrych at y dyfodol, bydd gwaith yn parhau i gefnogi Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo'r nifer sy'n sgrinio'r coluddyn, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae llai o bobl yn manteisio ar y profion hyn. Yn ogystal, bydd cyfathrebu ar draws y tri sefydliad a grybwyllwyd yn flaenorol yn parhau, gan gynyddu cyfleoedd i rannu gwybodaeth â chymunedau sydd â'r nifer isaf o bobl yn manteisio ar y profion hyn.<br><br>**Lleihau nifer y bobl sy'n smygu**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg i gyflawni ffigur nifer yr achosion o smygu o 5 % [9] neu lai erbyn 2030; ar hyn o bryd, 13 % yw ffigur nifer yr achosion. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae gwaith yn mynd rhagddo, mewn partneriaeth, i gyflawni camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n atal pobl rhag dechrau smygu a helpu smygwyr presennol i roi'r gorau iddi. Er enghraifft:<br><br>• Mae rhaglenni rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys rhaglen benodol i helpu smygwyr beichiog i roi'r gorau iddi.<br>• Cefnogi eiriolaeth ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn helpu i ddarparu amgylchedd di-fwg.<br><br>Cydnabyddir bod cyfraddau smygu a defnyddio cynhyrchion tybaco eraill yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau, fel y rheini sy'n byw mewn ardaloedd o |

9 Deellir mai dyma'r trothwy lle gallai'r epidemig tybaco ddod yn anghynaliadwy.

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | amddifadedd yn economaidd-gymdeithasol, pobl â chyflyrau iechyd meddwl, a'r rheini o rai cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Yn ogystal, er bod nifer yr achosion o smygu yn lleihau'n raddol, mae'r rheini sy'n dal i smygu'n aml yn wynebu heriau ychwanegol, ac angen cymorth mwy dwys dros gyfnod hwy gan Wasanaethau Smygu Gorfodol cyn rhoi'r gorau iddi'n llwyddiannus. Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol canolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r grwpiau hyn sy'n dymuno rhoi'r gorau i smygu.<br><br>Ar ben hynny, wrth edrych ymlaen, mae angen cyfathrebu effeithiol i sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei rhannu â'r bobl gywir am beryglon defnyddio tybaco, a defnyddio fêps. Gall fêps fod yn ddefnyddiol fel cymorth i roi'r gorau i smygu, ond fel arall, ni ddylid eu defnyddio. Yn 2024/25, mae'r meysydd ffocws yn cynnwys:<br><br>1. Lleihau cyfraddau smygu o 13 % i 5 % erbyn 2030 gan ddefnyddio dull system gyfan.<br>2. Sicrhau bod pob ymyriad yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran nifer yr achosion o smygu.<br>3. Lleihau nifer y bobl sy'n dechrau smygu. |
| Cynyddu canran y bobl sydd â phwysau iach a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, yn enwedig yn y cymunedau mwy difreintiedig, trwy gyflwyno'r Strategaeth Symud Mwy, Bwyta'n Iach 2020-2023. | Mae'r rhaglen Symud Mwy, Bwyta'n Iach (SMBI) wedi parhau i gael ei gyrru ymlaen gan bartneriaid, gan alluogi ac ymgorffori cyfleoedd ar gyfer symud a bwyd da ar draws cymunedau Caerdydd, mewn lleoliadau ac yn yr amgylchedd.<br><br>Sefydlwyd Grŵp Gweithredu SMBI, i gryfhau ysgogiad a chydweithio partneriaeth, wrth i aliniad parhaus SMBI â chynlluniau a rhaglenni gwaith lleol eraill – er enghraifft, Bwyd Caerdydd, Siarter Teithio Llesol, Cynyddu Gwaith Atal ac ati – helpu i yrru newid a chynyddu cyrhaeddiad y rhaglen. Yn ogystal, drwy'r dull system gyfan genedlaethol o ymdrin â Pwysau Iach: Cymru Iach, cafwyd cyfleoedd i rannu a dysgu o ranbarthau eraill ledled Cymru.<br><br>Yn ystod 2023-24, mae'r gwaith wedi cynnwys:<br><br>• Bwrw ymlaen â datblygiad polisi hysbysebu iachach. Yn dilyn cais llwyddiannus i raglen Timau Astudiaethau Ymatebol i Ymyriadau Iechyd y Cyhoedd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal, mae gwerthusiad â ffocws o waith hysbysebu iachach bellach yn mynd rhagddo.<br>• Llywio a dylanwadu ar Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, gan nodi polisïau strategol a allai fod ganddynt ffocws cryfach ar iechyd.<br>• Lansio 'Gwadnau Gweithgar', menter sy'n galluogi staff i wisgo esgidiau gweithgar i annog symud yn y gweithle.<br>• Cefnogi a hyrwyddo digwyddiadau amrywiol, gan gynnwys y digwyddiad Rhwydweithio Caffael Bwyd Iach a Chynaliadwy, Gŵyl Hydref Bwyd Da Caerdydd, Diwrnod Ail-lenwi'r Byd, Wythnos Maeth a Hydradu, ac Wythnos Bwyta'n Iach y gaeaf a'r haf.<br><br>Er bod cynnydd da wedi'i wneud, mae heriau'n ymwneud ag adnoddau staffio – ar draws lleoliadau - i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu ac ymgysylltu, yn |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | ogystal â phwysau ariannol ar draws y system, yn effeithio ar raddfa a chyflymder y newid. Mae her arall yn ymwneud â chamwybodaeth ynghylch negeseuon iechyd cyhoeddus a newid polisi.<br><br>Felly, ar hyn o bryd, mae ffocws yn cael ei roi ar adolygu'r fframwaith SMBI (2024-2030). I lunio'r fframwaith diwygiedig, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024, daethpwyd ag ystod eang o bobl ynghyd o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector drwy gyfres o weithdai wyneb yn wyneb ac ar-lein. Roedd y gweithdai wedi'u strwythuro'n thematig – gyda themâu yn cynnwys Pobl Iach, Lleoliadau Iach, Amgylchedd Iach, Arweinyddiaeth a Galluogi Newid – i ddatblygu'r weledigaeth a'r nodau ar gyfer pobl, lleoliadau, a'r amgylchedd mewn perthynas â bwyta'n iach a galluogi symud. Y gobaith yw y bydd y fframwaith yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni. |
| Cydweithio i fynd i'r afael â digartrefedd a'i atal, gan ganolbwyntio ar ddarparu opsiynau tai cynaliadwy a fforddiadwy ledled y ddinas i gwrdd â'r lefelau cynyddol o angen acíwt am dai, gan gynnwys i'r rheini sydd angen tai penodol gyda chymorth. | Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Caerdydd argyfwng tai mewn ymateb i'r pwysau eithriadol a'r galw di-baid am wasanaethau digartrefedd. Bryd hynny, roedd pob un o'r 1,699 o unedau llety dros dro yng Nghaerdydd yn llawn, gyda 707 o deuluoedd, 806 o bobl sengl, a 186 o bobl ifanc yn byw ar draws y ddinas. Roedd rhestrau aros i fynd i lety dros dro wedi cynyddu 150% ers 2021, er bod nifer y llety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol dros yr un cyfnod.<br><br>Mae ymatebion ar unwaith i'r argyfwng tai wedi cynnwys cryfhau'r gwasanaethau Atal Digartrefedd i ddiwallu'r angen cynyddol am gymorth a chanolbwyntio ar ymyrraeth gynnar. Mae cymorth atal digartrefedd bellach ar gael yn lleol mewn Hybiau Cymunedol ac o leoliadau eraill ar draws y ddinas. Mae mwy o gydweithio hefyd yn cael ei wneud ar draws gwasanaethau i ddatrys problemau ac atal digartrefedd. O ganlyniad, mae'r amseroedd aros ar gyfer apwyntiad atal digartrefedd wedi gostwng o 30 diwrnod gwaith ym mis Medi 2022 i gyfartaledd o wyth diwrnod gwaith yn ystod 2023/24.<br><br>Oherwydd maint y galw, mae gwestai ar hyn o bryd yn rhan angenrheidiol o ddarpariaeth llety dros dro, sy'n hanfodol o ran cartrefu pobl sengl a theuluoedd digartref. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn ddrud ac nid yw'n cynnig yr ateb hirdymor gorau i'r rheini yr effeithir arnynt.<br><br>Mae atebion tymor canolig i'r argyfwng tai yn cynnwys parhad o'r dull o ddefnyddio safleoedd gwag ar gyfer 'defnydd yn y cyfamser.' Bydd y gwaith o adeiladu 156 o gartrefi modiwlar ar hen safle'r gwaith nwy yn Grangetown wedi'i gwblhau ym mis Awst 2024, gyda 69 o gartrefi newydd wedi'u trosglwyddo eisoes. Mae'r unedau'n rhai dros dro a byddant yn cael eu hadleoli mewn mannau eraill pan fydd datblygiad parhaol y safle yn barod i symud ymlaen. Mae cynigion ar gyfer adeiladu 350 o gartrefi modiwlar pellach yn y cyfamser, ar draws 4 safle, yn cael eu dwyn ymlaen a byddant yn cael eu darparu drwy Raglen Cartrefi Caerdydd.<br><br>Er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y ddinas yn y tymor hwy, darparodd y rhaglen datblygu tai 262 o dai cyngor newydd ychwanegol yn ystod 2023/24, gan gynnwys 90 eiddo a brynwyd o'r farchnad. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi darparu 1,115 o gartrefi newydd ac mae ganddi'r gallu i ddarparu dros 4,000 o gartrefi newydd ar draws 65 o safleoedd datblygu. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Adeiladu ar lwyddiant dull 'Dim Mynd Nôl' Caerdydd tuag at gysgu ar y stryd, drwy ddatblygu dull sy'n seiliedig ar drawma ac iechyd y cyhoedd i effeithio'n gadarnhaol ar fywydau pobl sy'n agored i niwed, yn enwedig y rheini sydd wedi arfer byw ar y stryd. | Er mwyn adeiladu ar lwyddiant dull 'Dim Mynd Nôl' Caerdydd, mae Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phartneriaid yn y trydydd sector yn cydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol eithafol ymysg y grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed ac ar y cyrion[10], gan gynnwys y rheini sydd â ffyrdd o fyw ar y stryd, drwy ddarparu gwasanaeth cynhwysiant iechyd arbenigol, sydd wedi'i dargedu at unigolion sydd ar ymyl y dibyn o ran anghydraddoldeb.<br><br>Cynigir model a fyddai'n golygu y bydd gweithwyr iechyd proffesiynol a phartneriaid perthnasol yn cydleoli mewn hyb, gan ddefnyddio dull 'dim drws anghywir'. Cynigir y dylid gweithredu'r model gan ddefnyddio dull graddol, fel a ganlyn:<br><br>• Cam 1 (24/25): Ehangu gwasanaethau cynhwysiant iechyd a'u gwneud yn barhaol mewn hosteli ac yn y gwasanaeth prawf a chreu tîm cynhwysiant iechyd amlasiantaeth arbenigol mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer Cam 1.<br>• Cam 2 (25/26): Cydleoli gwasanaethau priodol mewn hyb i gynnig gofal iechyd a chymdeithasol cydlynol, integredig ac ymatebol ar gyfer grwpiau cynhwysiant iechyd a nodwyd.<br>• Cam 3 (26/27): Comisiynu gwelyau gofal canolraddol (o bosib i'w cynnwys yng Ngham 1 os nodir llety addas).<br><br>Ar ben hynny, mae Grŵp Ffyrdd o Fyw ar y Stryd ac Anghenion Cymhleth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cael adolygiad llawn o'i flaenoriaethau yng ngoleuni newidiadau mewn cymhlethdod a risg sy'n gysylltiedig â'r rheini sy'n treulio amser sylweddol ar y strydoedd. Mae ffocws ar ddiogelu, cyflyrau iechyd meddwl difrifol sy'n dod i'r amlwg a'r angen am ymatebion sy'n seiliedig ar drawma, yn ogystal â'r cysylltiad â thrais a hunanladdiad wedi dod i'r amlwg fel meysydd ffocws. Mae cyflwyno dull 'Gofal Cywir, Person Cywir' yn cryfhau'r angen am y blaenoriaethau hyn ac ymateb cadarn ymhellach. |

10 Mae'r cysyniad o gynhwysiant iechyd fel arfer yn cynnwys ymfudwyr sy'n agored i niwed; pobl sy'n profi digartrefedd; pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar; cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a phobl sy'n cymryd rhan mewn gwaith rhyw.

## Amcan Lles 4: Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol statudol newydd, a ategir gan ddull gweithredu sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd o leihau trais. | Mewn ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol, mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cynnal Asesiad Anghenion Strategol, ochr yn ochr â phroffil o drais yng Nghaerdydd. Datblygwyd Strategaeth Atal Trais ddrafft wedi hynny gyda phartneriaid; mae'r Strategaeth yn cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar iechyd ac wedi'i hategu gan Gynllun Cyflawni o brosiectau ac ymyriadau partneriaeth. Cyhoeddir y Strategaeth ddrafft ym mis Medi 2024, gyda gwerthusiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y gwerthusiad hwn yn helpu i ddangos tystiolaeth o'r dull presennol a bydd yn helpu i ddatblygu strategaeth tymor hwy. |
| Mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a chymryd camau i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr, gan gynnwys cytuno ar - a gweithredu - strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. | Mae mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn faes ffocws i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.<br><br>Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae partneriaid statudol a'r trydydd sector wedi cydweithio i ddatblygu Strategaeth VAWDASV ranbarthol, 5 mlynedd, ddiwygiedig, ynghyd â Chynllun Gweithredu cyfatebol.<br><br>Mae meysydd eraill o gynnydd yn cynnwys y canlynol:<br>• Mae argymhellion yr Adolygiad Bywyd Diogel wedi'u datblygu gan Grŵp Gweithredol VAWDASV.<br>• Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gorfodol yn parhau i gael ei weithredu.<br>• Mae rhaglenni i gefnogi'r rheini sy'n achosi niwed wedi eu darparu.<br>• Cynhaliwyd ymgyrchoedd a digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o VAWDASV.<br><br>Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2024/25 yn cynnwys:<br>• Cwblhau ymarfer dadansoddiad anghenion hyfforddiant.<br>• Datblygu Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer trafodaeth ddyddiol / prosesau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.<br>• Ailgomisiynu gwasanaethau VAWDASV arbenigol.<br>• Datblygu a chytuno ar ddangosfwrdd rhanbarthol o ddata a chanlyniadau lefel uchel.<br>• Mapio gweithgareddau ymgysylltu a chyfranogiad goroeswyr yn y rhanbarth i wella ymgysylltiad.<br>• Cefnogi datblygiad llwybrau clir ar gyfer pob achos o gamdriniaeth anffurfio organau cenhedlu benywod (AOCB) a chamdriniaeth ar sail anrhydedd a nodwyd ac a amheuir. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth i adnabod achosion o bobl sy'n agored i niwed ac atal niwed yn economi'r nos. | Mae atal niwed gyda'r hwyr ac economi'r nos yn faes ffocws i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r Strategaeth Atal Trais ddrafft yn nodi blaenoriaeth i weithio mewn partneriaeth i atal trais rhag digwydd yn economi'r nos drwy nodi risgiau a gwendidau posib, gan sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel yn y ddinas ar ôl iddi dywyllu. Mae'r Strategaeth yn nodi'r camau gweithredu canlynol, a fydd yn cael eu datblygu yn y dyfodol:<br>• Darparu a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth amrywiol a mannau diogel sydd ar gael i ddefnyddwyr economi'r nos pan fyddant yn agored i niwed neu'n teimlo'n anniogel. Er enghraifft, y Ganolfan Triniaeth Alcohol, Stiwardiaid y Nos, yr Ap Mannau Diogel, Bugeiliaid y Stryd a'r Bws Diogelwch i Fyfyrwyr.<br>• Datblygu dull lleihau niwed i leihau'r risg o niwed o alcohol a sylweddau eraill, gan adeiladu ar y dull hwn gyda phartneriaid allweddol fel safleoedd trwyddedig, yr heddlu, iechyd, colegau a phrifysgolion.<br>• Cefnogi pob sefydliad sy'n gweithredu yn economi'r nos - gyda gwybodaeth eu gweithlu am faterion megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, drais rhywiol, sbeicio diod a chamfanteisio - trwy roi cyfleoedd iddynt gael mynediad at Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Bod yn Agored i Niwed. |
| Diogelu'r sawl sydd mewn perygl o gael eu hecsploetio a'r rheini sydd wedi dioddef trosedd. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori dull cyd-destunol o ddiogelu ledled Caerdydd. | Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cryn dipyn o waith i symleiddio trefniadau partneriaeth ar gyfer diogelu. Mae'r trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi'u cryfhau, gyda mwy o ffocws ar wneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata. Mae cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn blaenoriaethau 2023-24 y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, fel yr amlinellir yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd. Mae gwefan newydd wedi'i datblygu hefyd ar gyfer y Bwrdd ac mae disgwyl iddi fod yn weithredol yn gynnar yn 2024/25.<br>Yn ogystal, mae'r model Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (DPIRhC) yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol. Sefydlwyd Partneriaeth DPIRhC, gan ddod â thros 50 o sefydliadau statudol a thrydydd sector ynghyd ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, i ddatblygu ac ymgorffori dull cyd-destunol o atal ac amharu ar ecsbloetio plant a phobl ifanc. Mae'r dull amlasiantaeth yn cynnwys partneriaid cenedlaethol a lleol, gan gynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Plant, Iechyd ac Addysg. Fel rhan o ddull system gyfan, yn 2023-24:<br>• Lluniodd y Bartneriaeth Gynllun Datblygu, yn seiliedig ar ganfyddiadau ymgynghoriad â thros 400 o ymarferwyr yn 2022.<br>• Cysylltodd Tîm DPIRhC ag ystod eang o bartneriaid ledled Caerdydd a De Cymru a chyflwynodd raglen o hyfforddiant, cynadleddau, digwyddiadau datblygu a dysgu proffesiynol a digwyddiadau ymgysylltu a rhwydweithio cymunedol, i gryfhau gweithio mewn partneriaeth a chodi ymwybyddiaeth o gamfanteisio. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | • Datblygwyd protocol a phecyn cymorth plant coll i gefnogi gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol yn well.<br>• Lansiodd tîm DPIRhC ganllawiau i gefnogi partneriaid i rannu gwybodaeth gyda'r Heddlu i ddiogelu plant yn well rhag niwed y tu allan i'r cartref.<br>Wrth edrych ymlaen, mae'r Tîm DPIRhC yn edrych i weithio gyda phartneriaid ar draws asiantaethau statudol a thrydydd sector i gryfhau polisïau ar Gogio a Thrwyddedu. |
| Tarfu ar y cyflenwad anghyfreithlon o sylweddau yn ein cymunedau i atal ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag cael eu hecsploetio, eu hesgeuluso, eu cam-drin, ac i leihau troseddau treisgar. | Mae mynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol a cham-fanteisio yn faes ffocws i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r Strategaeth Atal Trais ddrafft yn nodi sut y bydd y ddinas yn mynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol a cham-fanteisio, gan amlinellu'r camau gweithredu canlynol:<br>• Datblygu amrywiaeth o adnoddau a fydd yn codi ymwybyddiaeth o arwyddion camfanteisio a sut i adrodd am bryderon yn y gymuned, gyda'r nod o sicrhau bod diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion rhag camfanteisio yn 'fusnes i bawb'.<br>• Nodi sefydliadau arbenigol sy'n gallu gweithio gyda grwpiau o bobl sydd wedi'u targedu ac sy'n agored i niwed i'w hatal rhag dioddef o gamfanteisio neu eu denu i droseddu cyfundrefnol.<br>• Nodi cymorth hygyrch i ddioddefwyr a theuluoedd y mae camfanteisio yn effeithio arnynt i adfer ac ailadeiladu eu bywydau er mwyn atal camfanteisio pellach.<br>• Gweithio mewn partneriaeth i gasglu a rhannu gwybodaeth berthnasol i darfu ar weithgareddau grwpiau/gangiau troseddol cyfundrefnol ac amddiffyn y rheini sy'n dioddef o gamfanteisio.<br>Dyma rai enghreifftiau perthnasol o'r gwaith a wnaed yn y meysydd hyn:<br>• **Ymgyrch Pester:** Menter a weithredir gan Heddlu De Cymru yw Ymgyrch Pester, lle anfonir neges destun at bob rhif ffôn sy'n gysylltiedig â llinell gyffuriau i darfu ar y cyflenwad o gyffuriau, yn ogystal ag annog y rheini sy'n prynu cyffuriau anghyfreithlon i geisio cymorth i'w defnyddio; er enghraifft, drwy ddarparu manylion cyswllt CAVDAS (Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro). Rhwng mis Awst 2023 a mis Mawrth 2024, cafodd 13 o 'ddarllediadau' Pester eu gwneud gan Heddlu De Cymru, drwy anfon neges destun, gyda'r darllediad mwyaf yn cyrraedd 1,400 o unigolion. Mae gan fuddsoddiad parhaus yn y fenter hon y potensial i darfu ar rwydweithiau cyflenwi cymhleth a lleihau'r galw am sylweddau trwy hyrwyddo mynediad at wasanaethau adfer. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | • **Grŵp Tactegol Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol Heddlu De Cymru**: Sefydlwyd y Grŵp hwn i gyfrannu at ddatblygu dulliau partneriaeth, gan sicrhau bod y guddwybodaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n ymwneud â throseddu cyfundrefnol, llinellau cyffuriau, camdriniaeth a chaethwasiaeth fodern wedi'u deall a'u hystyried. Mae manteision y Grŵp yn cynnwys rhannu gwybodaeth, themâu a thueddiadau'n rheolaidd, gan gynnwys y dulliau gorfodi sy'n cael eu rhoi ar waith gan gydweithwyr yr Heddlu, yn ogystal â chefnogi twf cuddwybodaeth bellach gan randdeiliaid allweddol. Mae datblygiadau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cydweithredu i dargedu carfannau sy'n gysylltiedig â risgiau a thrais cynyddol, yn enwedig mewn perthynas â chyflenwi a defnyddio cyffuriau penodol. |
| Lleihau - ac yn y pen draw atal - niwed i iechyd a lles yn sgil defnyddio sylweddau, gan ganolbwyntio ar atal ac adnabod yn gynnar ddefnydd niweidiol o alcohol a datblygu atebion amgen diogel i bobl sy'n defnyddio sylweddau mewn mannau cyhoeddus ar hyn o bryd. | Mae gwaith i leihau – ac yn y pen draw atal – niwed i iechyd a lles yn sgil defnyddio sylweddau yn faes ffocws i'r Grŵp Camddefnyddio Sylweddau ac Anghenion Cymhleth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro. Dros y flwyddyn ddiwethaf:<br>• Mae partneriaid wedi datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r nod o sicrhau bod dull lleihau niwed o ran rheoli cymryd cyffuriau o fewn ystafelloedd preifat safleoedd hostel. Nod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yw sicrhau bod canllawiau cyson ar gael i staff lle nodir cymryd cyffuriau ar y safle a gwella cyfleoedd ar gyfer gwirio a chefnogi lles ehangach.<br>• Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Alcohol i alluogi nodi ac atal niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn gynnar. Cefnogir y gwaith hwn gan Alcohol Concern a Phartneriaeth Alcohol Gymunedol. Cynhaliwyd adolygiad o sgrinio alcohol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd yn ddiweddar; mae gwaith yn mynd rhagddo i archwilio'r argymhellion, a fydd yn ffocws dros y flwyddyn i ddod.<br>Yn ogystal, sefydlwyd Grŵp Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed Heddlu De Cymru. Drwy'r Grŵp hwn, mae datblygiadau mewn profion cyflym ar gyffuriau yr Heddlu wedi'u cyflawni, gan ganiatáu i wybodaeth amserol am sylweddau sy'n gysylltiedig â gwenwyno angheuol yn sgil camddefnyddio cyffuriau gael ei lledaenu i bartneriaid yn gyflym, gan gefnogi ymateb cyflym i risgiau i fod yn hyfyw. Mae'r Grŵp wedi gallu symud yn brydlon pan godwyd pryderon, yn enwedig o ran nitazenes. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Gweithredu strategaeth gwrthderfysgaeth CONTEST a gweithio mewn partneriaeth i ymateb i ofynion y Ddyletswydd PROTECT newydd. | Mae gwrtheithafiaeth yn faes ffocws i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae Bwrdd CONTEST Caerdydd a'r Fro, sy'n adrodd i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn dod â phartneriaid ledled Caerdydd a Bro Morgannwg ynghyd i roi Strategaeth CONTEST (Gwrthderfysgaeth) Llywodraeth y DU ar waith, gan ganolbwyntio ar bedair 'P' y Strategaeth, sef:<br>• **Atal (*Prevent*):** Atal pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth<br>• **Cymryd camau (*Pursue*):** Rhwystro ymosodiadau terfysgol<br>• **Amddiffyn (*Protect*):** Cryfhau ein dulliau o amddiffyn rhag ymosodiadau terfysgol<br>• **Paratoi (*Prepare*):** Lleddfu effaith ymosodiad terfysgol<br>Mae'r cynnydd ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:<br>• Creu Cynllun Gweithredu ar gyfer pob un o is-grwpiau'r Bwrdd (Bwrdd Partneriaeth Prevent Caerdydd, Bwrdd Partneriaeth Prevent y Fro, Grŵp Parodrwydd Diogelwch Amddiffynnol Caerdydd a Grŵp Parodrwydd Diogelwch Amddiffyn y Fro), gan ystyried canfyddiadau allweddol Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth 2023. Caiff cynnydd yn erbyn y cynlluniau ei adrodd i'r Bwrdd bob chwarter ar gyfer sicrwydd a chraffu.<br>• Canfu Asesiad Aeddfedrwydd, a gwblhawyd ym mis Hydref 2023, fod Bwrdd CONTEST Caerdydd a'r Fro wedi'i nodweddi gan gymuned Gwrthderfysgaeth sydd â rhwydwaith da sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddarparu ar gyfer CONTEST.<br>Yn dilyn cyhoeddi PLIG 2024, bydd y Cynlluniau Gweithredu yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r bygythiad a'r darlun risg diweddaraf.<br>Nid yw Cyfraith Martyn (y Ddyletswydd Amddiffyn) wedi'i derbyn eto gan Senedd y DU. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cyflawni prosiectau lleol sy'n seiliedig ar bartneriaeth sy'n mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sylweddol drwy ddull datrys problemau. | Mae mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn faes ffocws i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r Grŵp Datrys Problemau Lleol yn dod ag asiantaethau ynghyd i archwilio atebion i broblemau cymunedol cymhleth sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Grŵp yn symud tuag at ddull cynllun gweithredu ardal leol, gyda'r wardiau wedi'u blaenoriaethu gan gynnwys Adamsdown/y Sblot, Butetown, Elái/Caerau, a chanol y ddinas. Bydd dangosfwrdd perfformiad yn cael ei greu i fonitro'r camau gweithredu arfaethedig yn y wardiau a'r canlyniadau disgwyliedig.<br><br>Mae'r grwpiau canlynol yn cysylltu â'r Grŵp Datrys Problemau Lleol:<br>• Mae'r Grŵp Partneriaeth Teledu Cylch Cyfyng yn parhau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y camerâu ledled Caerdydd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer materion diogelwch cymunedol.<br>• Grŵp Cyflawni Beiciau Oddi ar y Ffordd, sy'n cydlynu cynllun cyflawni ymyriadau i fynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghaerdydd. Mae nifer o ymgyrchoedd gorfodi wedi llwyddo i atafael nifer o gerbydau anghyfreithlon. Bydd tactegau eraill yn cynnwys ymgyrchoedd cyfathrebu cymunedol a rhaglenni ymyrraeth fel Motocross. |
| Sefydlu dull partneriaeth o leihau nifer y bobl hŷn sy'n dioddef twyll. | Lansiodd Caerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn wefan ym mis Hydref 2023, gan ddarparu adnoddau i bobl hŷn wella eu hiechyd a'u lles. Mae gan y wefan ffocws ar drosedd a diogelwch, gydag adnoddau ar sut y gall pobl hŷn fod yn fwy diogel ar-lein a bod yn ymwybodol o dwyll. Cefnogir hyn gan gylchlythyr rheolaidd, a gyflwynir i rai preswylwyr, a'i hyrwyddo mewn hybiau lleol a meddygfeydd.<br><br>Yn ogystal, mae tîm Seiberdroseddu Heddlu De Cymru wedi datblygu adnodd i wella ymwybyddiaeth unigolion o dwyll ar-lein sydd wedi'i gyflwyno ar draws y rhanbarth. Mae timau Plismona'r Gymdogaeth Leol wedi ymweld â hybiau a busnesau lleol i godi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor i drigolion hŷn yn seiliedig ar yr adnodd hwn. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU am arian ychwanegol a mwy cynaliadwy i dalu am gost plismona'r brifddinas, fel sy'n wir ym mhrifddinasoedd eraill y DU. | Mae Heddlu De Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd a'r Swyddfa Gartref i gyflwyno'r achos dros setliad ariannu tecach ar gyfer Heddlu De Cymru, sy'n ystyried heriau plismona un o bedair prifddinas y DU. Bydd yr achos yn parhau i gael ei wneud, gan weithio mewn partneriaeth, wrth symud ymlaen. |
| Croesawu a chefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i adeiladu bywyd newydd yng Nghaerdydd, gan gynnwys parhau i arwain yr ymateb lleol i argyfyngau Wcráin ac Affganistan. | Mae Cymru'n Genedl Noddfa ac mae Caerdydd yn falch o ddarparu cefnogaeth a lloches i'r rheini sy'n ffoi rhag gwrthdaro byd-eang. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae dros 1,200 o wladolion Wcráin wedi eu croesawu i'r ddinas ar gyfer anheddiad hirdymor, wrth fod 800 o bobl o Affganistan wedi cael cymorth i lety pontio lleol dros dro fel rhan o broses genedlaethol lle maent yn cael eu paru i gartrefi hirdymor ledled y DU. Gall y prosesau hyn roi straen ar rannau o'r system gwasanaethau cyhoeddus, fodd bynnag, mae cydweithio'n agos yn hanfodol i ddarparu mynediad at y llety, yr iechyd, y gyflogaeth a'r gwasanaethau cynghori arbenigol sydd eu hangen.<br><br>Gwelwyd pwysau galw sylweddol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, yn dilyn penderfyniad gan y Swyddfa Gartref i gyflymu'n sylweddol y broses o wneud penderfyniadau cymeradwyo ar rai achosion lloches. Effeithiodd hyn ar ddigartrefedd a gwasanaethau tai ehangach, yn benodol, gan fod llawer o unigolion y rhoddwyd lloches iddynt wedi cyflwyno eu hunain yn ddigartref wedyn, gan geisio cymorth i'w cefnogi i lety. Yn y dyfodol, bydd ffocws yn parhau i gael ei roi ar ymateb i anghenion uniongyrchol y rheini sy'n cyrraedd Caerdydd, wrth drosglwyddo unigolion a theuluoedd i ddarpariaeth hirdymor gynaliadwy lle y bo hynny'n bosib. |

## Amcan Lles 5: Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cydweithio i gynnig cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeion newydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas. | Mae partneriaid yn gweithio i ddarparu cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeion newydd. Yn 2023/24:<br>• **Cyngor Caerdydd:** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yng Nghaerdydd a chynyddu amrywiaeth ei weithlu. Trwy Gynllun Prentisiaid a Hyfforddeion Corfforaethol y Cyngor, mae gwasanaethau wedi cael eu cefnogi i greu rolau prentisiaethau a hyfforddeion, gydag ymrwymiadau a thargedau wedi'u nodi mewn Cynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth. Mae gan y Cyngor dudalen we bwrpasol ar gyfer cyfleoedd prentisiaeth, hyfforddeion a graddedigion, gyda chyfleoedd yn cael eu hyrwyddo'n aml. Yn 2023/24, darparwyd 70 o leoliadau prentisiaeth a hyfforddeion newydd, gan ddod â chyfanswm nifer y lleoliadau prentisiaeth a hyfforddeion, yn ystod y flwyddyn, i 154.<br>• **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i greu diwylliant sy'n archwilio'r cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau, eu profiad, eu haddysg a'u cymwysterau. Mae gan y Bwrdd Iechyd dudalen we bwrpasol ar gyfer cyfleoedd, o'r enw Academi Brentisiaeth. Dros y tair blynedd nesaf, rhoddir ffocws ar gynyddu cyfleoedd mewn meysydd traddodiadol fel ystadau a chrefftau, yn ogystal â mewn swyddogaethau cymorth hanfodol, fel AD a Chyllid. Yn 2023/24, darparwyd 229 o leoliadau prentisiaeth a hyfforddeion newydd, gyda chyfanswm nifer y prentisiaethau yn y flwyddyn a lleoliadau hyfforddeion yn 371.<br>• **Heddlu De Cymru:** Mae Heddlu De Cymru yn parhau i gynnig amrywiaeth o lwybrau mynediad i'r sefydliad yn lleol yng Nghaerdydd, gan gynnwys y cynllun interniaeth blynyddol, lleoliadau haf ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a llwybr Gradd-brentisiaeth Cwnstabliaid yr Heddlu, sy'n caniatáu i bobl ennill gradd wrth weithio fel Swyddog Heddlu.<br>• **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn rhan o Raglen Prentisiaethau Cymru ac yn cynnig Cynllun Prentisiaeth sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i brentisiaid ddatblygu sgiliau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ac ennill cymhwyster. Rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mehefin 2024, darparwyd 62 o leoliadau prentisiaeth newydd.<br>• **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC):** Mae'r GPC wedi gweithio gyda Gyrfa Cymru a nifer sylweddol o gyflogwyr allanol i greu cyfleoedd i bobl yn y gwasanaeth prawf. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Gwasanaeth Ffair Yrfaoedd, a oedd yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi i'r rheini sydd mewn cyfnod prawf yn ogystal â cheisiadau agored am swyddi. Bydd digwyddiad tebyg yn cael ei gynnal dros yr haf. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi rhaglen digwyddiadau mawr Caerdydd, gan feddwl am eu heffaith ar gost darparu gwasanaethau cyhoeddus. | Mae partneriaid yn parhau i weithio ar y cyd i gyflawni rhaglen digwyddiadau blynyddol y ddinas, gyda ffocws sylweddol ar gynnal parhad 'busnes fel arfer' trwy gydol cyfnod unrhyw ddigwyddiadau mawr. Mae'r ffocws presennol ar baratoi ar gyfer Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd yn Hydref 2024, rownd derfynol Rygbi Proffesiynol Ewropeaidd yn 2025 a chynnal Pencampwriaeth Euro 2028, ynghyd ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Fel gyda phob digwyddiad mawr, rhoddir pob cyfle i sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn negyddu unrhyw ddyblygu o ran ymdrech. Yn ogystal, caiff cyllideb ac adnoddau eu monitro'n agos i sicrhau bod y dulliau cyflenwi mwyaf cost-effeithiol yn cael eu defnyddio.<br><br>Wrth edrych at y dyfodol, mae Cyngor Caerdydd yn arwain y gwaith o ddatblygu Strategaeth Ddigwyddiadau newydd - a fydd yn gysylltiedig â Strategaeth Dwristiaeth newydd - yn ogystal â Strategaeth Ddiwylliannol newydd, i hyrwyddo ac adfywio cynnig diwylliannol a digwyddiadau Caerdydd.<br><br>Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yw ail strategaeth hyrwyddo'r |
| Anelu i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050. | Gymraeg y ddinas, ac mae'n dilyn strwythur Cymraeg 2050, cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae’r Strategaeth wedi’i halinio’n agos â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-32.<br><br>Mae data Cyfrifiad 2021 yn nodi bod cynnydd wedi bod yng nghanran poblogaeth Caerdydd (3 oed ac yn hŷn) sy'n siarad Cymraeg, o 11.1 % yn 2011 i 12.2 % yn 2021. Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan wrth gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd gofyn i nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gynyddu o’r 44,213 a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 i 46,565 yn 2027. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd blynyddol o 392 (cynnydd canrannol blynyddol o 1.25 % )[11].<br><br>Dyma rai o’r prif lwyddiannau wrth weithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn 2023-24:<br><br>• Cynhaliwyd Gyrfa Gymraeg, digwyddiad i hyrwyddo'r Gymraeg a chyfleoedd gyrfaol Cymraeg, ar gampws Heol Dumballs, Coleg Caerdydd a'r Fro ar 23 Mehefin 2023. Daeth dros 300 o ddisgyblion Blwyddyn 9 yno o ysgolion uwchradd Plas Mawr a Bro Edern.<br><br>• Sefydlwyd is-grŵp ym mis Ionawr 2024 i gefnogi cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau ôl-16 Cymraeg yng Nghaerdydd. Bydd y grŵp yn mapio'r ddarpariaeth a gynigir ar hyn o bryd yng Nghaerdydd ac yn datblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd i hyrwyddo'r cynnig Cymraeg. |

11 Roedd y targedau ar gyfer y cynnydd gofynnol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd - i gefnogi Cymraeg 2050 ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 - yn seiliedig o'r blaen ar amcanestyniadau o Gyfrifiad 2011 a ffynonellau data ychwanegol fel yr Arolwg Poblogaeth Cenedlaethol, a gyflwynodd nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd fel 43,223 yn 2022. Adolygwyd y targedau ar ôl derbyn Cyfrifiad 2021.

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | • Sefydlwyd is-grŵp ym mis Hydref 2023 i gefnogi 3 ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd sydd wedi profi llai o niferoedd yn eu dosbarthiadau Derbyn. Mae'r grŵp yn gweithio i gefnogi'r ysgolion ac i hyrwyddo addysg Gymraeg o fewn eu dalgylchoedd.<br>• Derbyniodd ymgynghoriad ledled y ddinas i ganiatáu i bobl ifanc roi eu barn ar y Gymraeg a darpariaeth ieuenctid ddwyieithog yng Nghaerdydd dros 1,800 o ymatebion. Dangosodd yr ymatebion fod pobl ifanc Caerdydd yn dymuno gweld mwy o gyfleoedd cymdeithasol Cymraeg, gallu datblygu sgiliau newydd gyda'u ffrindiau, ac i ddarpariaeth Gymraeg gael ei chynnig y tu allan i leoliadau ysgol. Datblygwyd rhaglen o weithgareddau gyda Fforwm Ieuenctid Caerdydd Dwyieithog o ganlyniad.<br>• Mae menter Pencampwr y Gymraeg De-ddwyrain Cymru wedi'i sefydlu fel partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Mentrau Iaith. Ffocws y bartneriaeth yw cynyddu hygyrchedd darpariaeth Gymraeg a'i hyrwyddo gyda rhieni a chymunedau. Cynhaliodd y bartneriaeth, sydd bellach wedi'i brandio fel Cymraeg i Bawb, ei chynhadledd flynyddol gyntaf ym mis Mawrth 2024, gan arddangos cyflawniadau hyd yn hyn, gan gynnwys lansio gwefan newydd: Cymraeg i Bawb I Welsh for all.<br>• Lansiwyd gwefan Ein Dinas, Ein Hiaith / Our City, Our Language ar Ddydd Gŵyl Dewi 2024. Mae'r wefan yn cyflwyno gwybodaeth am addysg a diwylliant Cymraeg ar draws y ddinas a'i nod yw darparu siop un stop i gael gafael ar yr holl weithgareddau a chyfleoedd Cymraeg a gynigir yng Nghaerdydd.<br>Wrth symud ymlaen, bydd ffocws yn parhau i gael ei roi ar gyflawni Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 a'i themâu strategol: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i'r Gymraeg.<br><br>Sefydlwyd Partneriaeth Natur Leol (PNL) Caerdydd yn 2020 drwy brosiect |
| Cydweithio i wneud yn fawr o hamdden awyr agored, gan ddefnyddio seilwaith gwyrdd a glas. | Partneriaethau Natur Lleol Cymru gyfan. Nod PNL Caerdydd yw dwyn ynghyd randdeiliaid traws-sector i gefnogi a chyflwyno prosiectau a gweithgareddau sy'n diogelu ac yn gwella bioamrywiaeth. Mae'r Bartneriaeth yn parhau i ysgogi diddordeb mewn hamdden awyr agored, gan gefnogi'r defnydd o fannau gwyrdd a glas Caerdydd, gan gynnwys parciau, afonydd/dyfrffyrdd a chanolfannau gweithgareddau awyr agored.<br>Yn 2023/24, cafwyd 650,000 o ymweliadau unigol, a oedd yn gysylltiedig â gweithgaredd hamdden ffurfiol, yn sgil darpariaeth seilwaith gwyrdd a glas. Yn ogystal, trwy'r Rhaglen Allgymorth ac Ymgysylltu'r Gwasanaethau Parciau, cynhyrchwyd dros 21,000 o oriau gwirfoddol.<br>Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2024/25. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cydweithio i wneud yn fawr o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi wrth ddatblygu ac adeiladu seilwaith sector cyhoeddus newydd mawr, megis ystadau iechyd neu awdurdod lleol, gan sicrhau bod seilwaith newydd yn cefnogi'r ddinas i gyflawni datgarboneiddio a gwydnwch hinsawdd i wella iechyd a lles ein cymunedau. | O safbwynt Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod datblygu seilwaith newydd yn gwneud yn fawr o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi, yn ogystal â chefnogi'r ddinas i gyflawni datgarboneiddio. Mae hyn yn cynnwys unrhyw brosiectau seilwaith ar y cyd sy'n cael eu cyflawni; mewn prosiectau ar y cyd, mae'r dull o sicrhau y gwneir yn fawr o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi, yn ogystal â datgarboneiddio, yn cael ei arwain gan y partner arweiniol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r seilwaith.<br><br>Am ragor o wybodaeth am brosiectau seilwaith ar y cyd, cyfeiriwch at Amcan Lles 7: Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>**Gwneud yn Fawr o Gyfleoedd ar gyfer Cyflogaeth Leol a Chadwyni Cyflenwi**<br><br>O safbwynt Cyngor Caerdydd, ers 2020, mae'r Cyngor wedi bod yn treialu'r defnydd o ThCM Cymru (Themâu, Canlyniadau, Mesurau) i gynyddu manteision lles cymunedol/gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr. Disgrifir pob Thema (neu nod) gan gyfres o Ganlyniadau a'u cefnogi gan nifer o Fesurau y gellir eu defnyddio i gyflawni'r canlyniadau hynny. Gall cyflenwyr nodi pa fesurau y byddant yn gallu eu cyflawni fel ymrwymiadau. Mae'r 'Porthol Gwerth Cymdeithasol' yn blatfform ar-lein sy'n galluogi tendrwyr i wneud eu hymrwymiadau gwerth cymdeithasol, ac mae'n ofynnol i'r contractwyr llwyddiannus ddefnyddio'r porthol i adrodd ar gyflawni. Yn ddiweddarach eleni, bydd platfform newydd, 'THRIVE', yn cael ei roi ar waith, a fydd yn galluogi i ymrwymiadau gwerth cymdeithasol gael eu monitro'n agosach.<br><br>Wrth edrych ymlaen, mae canllawiau statudol yn cael eu datblygu ar gyfer Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023, a fydd yn egluro'r gofynion adrodd ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru mewn perthynas ag effeithiau gwerth cymdeithasol/lles, ac felly'n berthnasol i brosesau tendro unigol. Mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn ymwneud â llunio'r canllawiau statudol.<br><br>Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd wedi bod yn gweithio i lywio'r canllawiau statudol, mewn partneriaeth gymdeithasol â Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (PGRGC), Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach y sector cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn llywio'r canllawiau statudol, mae PGRGC, ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ehangach GIG Cymru, wedi cynnal profion effeithiau gwerth cymdeithasol / lles wedi'u sgorio o fewn gweithgareddau caffael i sicrhau y gellir defnyddio'r dull ar draws amrywiol brosesau. |


| Blaenoriaeth | Diweddariad |
| --- | --- |
| | **Datgarboneiddio**<br><br>O safbwynt Cyngor Caerdydd, mae Ardal[12] wedi datblygu 'Nodyn Cyfarwyddyd Caffael Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon' i gefnogi swyddogion sy'n ymwneud â'r broses gaffael i nodi a rhoi cyfleoedd ar waith i leihau carbon ar draws y cylch caffael a mesur yr hyn a gyflawnir. Yn ogystal, mae Ardal wedi gweithio, trwy Rwydwaith Caffael De-ddwyrain Cymru, i ddatblygu 'Nodyn Cyfarwyddyd Cynllun Lleihau Carbon', i sicrhau bod dull cyson o wneud cais am Gynlluniau Lleihau Carbon (o fewn tendrau) ar draws y rhanbarth. Mae hyn bellach wedi'i fabwysiadu gan bob un o'r 10 Cyngor yn Ne-ddwyrain Cymru, a'i rannu ar draws holl Gynghorau Cymru.<br><br>Wrth symud ymlaen, rhoddir ffocws ar ddatblygu gwybodaeth a sgiliau carbon swyddogion, gan gynnwys gallu swyddogion i nodi a manteisio ar gyfleoedd lleihau carbon.<br><br>O safbwynt Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae'r sefydliad, sy'n gweithio gyda PGRGC, wedi safoni ei ddull o ymdrin â'r cais am Gynlluniau Lleihau Carbon ac wedi cyhoeddi ei gyfres o gwestiynau ar-lein. Mae'r dull hwn yn galluogi ymarferwyr i ddefnyddio cyfres o gwestiynau priodol sy'n gymesur â'r caffael ei hun, yn ogystal â darparu dolenni gwe i gymorth sydd ar gael gan y diwydiant. Ar ben hynny, mae argaeledd Cynlluniau Lleihau Carbon wedi galluogi GIG Cymru, lle y bo hynny'n briodol, i symud o ffactorau allyriadau sy'n benodol i'r diwydiant i ffactorau allyriadau sy'n benodol i gyflenwyr, gan gynhyrchu budd adroddadwy o dros 200,000 tCo2e (o garbon deuocsid cyfwerth) ar draws GIG Cymru. |

12 Ardal yw'r gwasanaeth caffael sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu partneriaeth gaffael gydweithredol ar draws Caerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy a Thorfaen, yn ogystal â rheoli fframweithiau rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.

## Amcan Lles 6: Caerdydd Un Blaned

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Gosod uchelgais lleihau carbon ar y cyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. | Cyhoeddwyd Strategaeth Caerdydd Un Blaned (CUB) yn 2021, gyda nod strategol trosfwaol o fapio llwybr ar gyfer dinas Carbon Niwtral. Yn dilyn hynny, sefydlwyd Bwrdd Argyfwng Hinsawdd fel is-grŵp o BGC Caerdydd, gan ddod â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill y ddinas ynghyd, gan gynnwys Prifysgolion a Chwmnïau Cyfleustodau, i rannu arfer gorau a datblygu mentrau ar y cyd mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd.<br><br>Cytunwyd yn y pen draw y byddai'r Bwrdd yn archwilio'r potensial ar gyfer mentrau ar y cyd yn y meysydd canlynol: fflyd a seilwaith allyriadau isel; caffael; ystadau, gan gynnwys plannu coed a rheoli tir; ac ymgysylltiad ar gyfer newid diwylliant.<br><br>Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Argyfwng Hinsawdd wedi gweld llwyddiant o ran rhannu gwybodaeth, gan gynnwys astudiaethau achos o arfer da, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth gyffredin o heriau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae partneriaid wedi:<br><br>• Llywio datblygiad Cynllun Ynni Ardal Leol Caerdydd, sy'n asesu'r gofynion i ddatgarboneiddio ynni ledled y ddinas erbyn 2050[13].<br>• Wedi gweithio i ddylanwadu ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd, gan geisio sicrhau bod y Cynllun yn cefnogi datblygiad sero net.<br>• Cymryd rhan mewn datblygu fframwaith caffael cydweithredol, gan Lywodraeth Cymru, i alluogi Awdurdodau Lleol Cymru i brynu cerbydau trydan ar y cyd.<br>• Cynnal digwyddiad sy'n canolbwyntio ar rannu syniadau ac arfer da, ynghyd â'r heriau sy'n ymwneud â datgarboneiddio ystadau, a oedd yn nodi bod angen tua £1-2 biliwn o fuddsoddiad ar draws ystadau cyhoeddus.<br>• Cefnogi prosiect Coed Caerdydd, gyda 30,000 o goed wedi'u plannu rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ebrill 2024.<br><br>Er bod camau gweithredu'n cael eu gwneud gan bartneriaid - gan gynnwys drwy gynlluniau datgarboneiddio gweithredol unigol - mae'n dod yn amlwg bod cyrraedd sefyllfa carbon sero-net yn ymddangos yn heriol ac mae bron yn sicr na fydd yn digwydd heb fuddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth. |

13 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed sy'n gyfreithiol rwymol i gyrraedd allyriadau sero net yng Nghymru erbyn 2050 gydag uchelgais pellach i Sector Cyhoeddus Cymru weithredu fel arweinydd cynnar a model braenaru allweddol yn y broses bontio hon.

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | Mae'r cynnydd o ran datgarboneiddio'r ddinas ehangach wedi bod yn gymedrol, gydag allyriadau carbon yn gostwng 0.9 % yn unig rhwng 2019 a 2021, yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael[14]. Trafnidiaeth yw'r sector sy'n allyrru uchaf ar gyfer y ddinas o hyd, gan gyfrannu 617,400 tunnell, neu 35 % o allyriadau'r ddinas yn 2021. Allyriadau domestig oedd yr ail uchaf, gan gyfrif am 472,500 tunnell CO2-e, neu 27 % o allyriadau'r ddinas yn 2021, gyda dim ond newid bach iawn ers y flwyddyn sylfaenol. Yn nodedig, mae allyriadau'r sector cyhoeddus wedi cynyddu 43.9 % ers 2019, er bod allyriadau'r sector cyhoeddus ond yn dod i gyfanswm o 7 % o allyriadau'r ddinas. Mae hyn yn cynnwys holl weithgarwch y sector cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, gwasanaethau brys a'r llywodraeth. Mae'r duedd hon yn gyson ar draws dinasoedd craidd y DU, er bod Caerdydd yn dangos cynnydd uwch na'r cyfartaledd.<br><br>Mae cyfarfodydd y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd yn gadarnhaol, mae llawer yn bresennol ynddynt ac maent yn addysgiadol, yn enwedig o ran cyfnewid gwybodaeth a dysgu. Fodd bynnag, oherwydd trefniadau llywodraethu a gweithredol unigol sefydliadau, hyd yma mae cael ymrwymiad ar y cyd gan sefydliadau ar waith cydweithredol y tu hwnt i rannu arfer gorau wedi profi'n heriol.<br><br><br><br><br>Wrth symud ymlaen, mae angen adolygiad er mwyn deall yn well y dirwedd ariannol a'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â chwrdd â niwtraliaeth carbon, yn ogystal â thargedau ar y cyd. Yn ogystal, mae angen nodi'r dull(iau) mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu a hyrwyddo mentrau datgarboneiddio ar y cyd. |

14 Rhaid cydnabod bod y data hwn yn tynnu sylw at effeithiau cyfyngiadau symud COVID-19 a dychwelyd i fusnes yn ôl yr arfer wedi hynny. Bydd cyhoeddi data ar gyfer 2022 yn rhoi darlun cliriach o dueddiadau ar ôl COVID-19.

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Arwain rhaglen waith ar newid ymddygiad a datblygu amgylcheddau galluogol gyda staff BGC, gan ganolbwyntio ar deithio, defnydd o ynni a bwyd. | O safbwynt newid ymddygiad, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Argyfwng Hinsawdd wedi:<br>• Gweithio i ddylanwadu ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd, gan geisio sicrhau bod y Cynllun yn cefnogi datblygiad sero net. Fodd bynnag, mae nifer o heriau yn parhau i fod yn gysylltiedig â pholisi/rheoleiddio cenedlaethol, hyfywedd ac adnoddau.<br>• Datblygu cynnig hyfforddi newid ymddygiad, gan edrych ar gymhwyso'n ymarferol o feddwl am newid ymddygiad, ac sydd wedi'i dargedu at arbenigwyr newidiadau nad ydynt yn ymwneud ag ymddygiad sy'n gweithio ym maes newid hinsawdd. Nid yw'r cynnig wedi symud ymlaen eto, fodd bynnag, oherwydd diffyg cefnogaeth (ariannol ac o ran ymrwymiad) gan bartneriaid.<br>Yn ogystal, mae partneriaid y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd wedi parhau i rannu gwybodaeth am fentrau/dysgu newid ymddygiad.<br>Yn unol â'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ymgyrch genedlaethol - Gweithredu ar Newid Hinsawdd - i gefnogi a chynnwys pobl a chymunedau ledled Cymru mewn gweithredu ar yr argyfyngau hinsawdd a natur. Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod unrhyw negeseuon sy'n gysylltiedig â newid ymddygiad yn gyson â'r ymgyrch. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
| --- | --- |
| Cydweithio i bontio i fflyd sector cyhoeddus allyriadau isel drwy:<br>• Archwilio cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau depo a rennir, optimeiddio cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan integredig, a chyflenwad ynni adnewyddadwy uniongyrchol posib.<br>• Archwilio cyfleoedd technegol a allai alluogi sefydliadau partner i ddefnyddio seilwaith gwefru presennol ei gilydd ar y safle.<br>• Archwilio cyfleoedd i ddatblygu trefniadau caffael a rennir ar gyfer cerbydau fflyd trydan newydd. | Yn 2023-24, roedd y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd yn ymwneud â datblygu fframwaith caffael cydweithredol, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, i alluogi Awdurdodau Lleol Cymru, gan gynnwys Cyngor Caerdydd, i brynu Cerbydau Trydan ar y cyd, gan arwain at arbedion cost sylweddol. Hyd yma mae 236 o gerbydau wedi eu harchebu, gan ddarparu arbediad cyfunol o £660,000 o'i gymharu â llwybrau caffael traddodiadol. Y gobaith yw y gellir ailadrodd y model hwn ar gyfer prosiectau yn y dyfodol ledled Cymru.<br>Ar ben hynny, mae'r Bwrdd Argyfwng Hinsawdd wedi archwilio cyfleoedd ar gyfer trefniadau depo a rennir. Fodd bynnag, cydnabyddir bod gan bartneriaid ofynion amrywiol, ac nid aelodau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am lywodraethu ar gyfer materion o'r fath. Er nad oes partneriaethau uniongyrchol wedi'u sefydlu hyd yn hyn, mae'r cyfle i gydweithio yn parhau ar agor. |
| Cydweithio i leihau effaith carbon gweithgareddau caffael aelodau BGC a symud tuag at economi gylchol. | Mae gwaith yn mynd rhagddo o fewn sefydliadau unigol i nodi a gweithredu cyfleoedd i leihau carbon ar draws y cylch caffael – am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at Amcan Lles 5: Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru - fodd bynnag, nid yw cyfleoedd ar y cyd wedi'u harchwilio eto. Cydnabyddir bod angen ymagwedd o ddod ag arweinwyr caffael ar draws sefydliadau ynghyd, i ddeall yr hyn y gellir ei ddatblygu ar y cyd. |

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth</th><th>Diweddariad</th></tr>
<tr><td>Cydweithio i leihau carbon mewn ystadau gwasanaeth cyhoeddus drwy:<ul><li>Gymharu a choladu amcangyfrifon costau cyffredinol ar gyfer sero-net erbyn 2030 ymhlith yr holl bartneriaid, a nodi bylchau ariannu, materion strategol, a chyfleoedd i drafod ymhellach gyda llunwyr polisi.</li><li>Sefydlu atafaelu carbon, plannu coed a phrotocolau rheoli tir amgylcheddol-gyfrifol mewn strategaethau ystadau.</li></ul></td><td>Mae sefydliadau wedi rhannu gwybodaeth a syniadau drwy'r Bwrdd Argyfwng Hinsawdd; fodd bynnag, hyd yn hyn mae cael cefnogaeth gan sefydliadau ar waith cydweithredol sy'n gysylltiedig â lleihau carbon mewn ystadau gwasanaethau cyhoeddus y tu hwnt i rannu arfer gorau, wedi profi'n heriol.<br><br>Ym mis Ionawr 2024, cynhaliodd Prifysgol Caerdydd ddigwyddiad Bwrdd Argyfwng Hinsawdd, a oedd yn canolbwyntio ar rannu syniadau ac arfer da, ynghyd â'r heriau, sy'n ymwneud â datgarboneiddio ystadau. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:<ul><li>Cost datgarboneiddio ystadau - beth yw'r gofyn ar y cyd?</li><li>Mapio cyfleoedd gwres ac ynni ar draws Caerdydd</li><li>Datgarboneiddio ac ôl-osod</li></ul>Yn dilyn y digwyddiad, datblygwyd arolwg i fesur rhai o'r materion a drafodwyd, y prif ddiben oedd penderfynu beth yw sefyllfa sefydliadau-aelodau ar fater datgarboneiddio ystadau. Mae gwaith o gasglu'r canlyniadau yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.</td></tr>
<tr><td>Cynyddu'r cyfle i amsugno allyriadau a gwella bioamrywiaeth gyda seilwaith gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried defnyddio tir sector cyhoeddus i blannu mwy o goed er mwyn cynyddu atafaelu carbon a gwella bioamrywiaeth.</td><td>Mae Coed Caerdydd yn rhaglen 10 mlynedd i gynyddu nifer y coed yng Nghaerdydd, gan gefnogi Strategaeth Caerdydd Un Blaned, gyda'r uchelgais o gynyddu'r gorchudd coed ledled y ddinas o 18.9% i 25% erbyn 2030.<br><br>Ers ei sefydlu yn 2021, mae prosiect Coed Caerdydd wedi arwain at blannu 80,000 o goed newydd mewn 280 o wahanol safleoedd ledled y ddinas, gan gynnwys mwy na 100 o barciau a mannau agored, 17 ysgol wahanol ac 11 safle cymunedol yn ogystal ag ar dir preifat. Rhwng 2023 ac Ebrill 2024, plannwyd 30,000 o goed gyda chymorth 2,500 o wirfoddolwyr cymunedol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ffocws wedi'i roi yn benodol ar goed stryd, gyda thros 200 o goed stryd mawr newydd wedi'u plannu ar strydoedd sydd heb orchudd canopi coed neu braidd dim o gwbl.</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cydweithio i ddatblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol. | Mae Partneriaeth Natur Leol (PNL) Caerdydd wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGAN), i gyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol. Bydd y Cynllun yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i adfer a gwella natur yn y ddinas.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ionawr 2024 i gasglu barn ar natur yng Nghaerdydd a syniadau ar gyfer prosiectau a chamau gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o weithdai wyneb yn wyneb ac ar-lein ar draws y ddinas, ynghyd ag arolwg ar-lein. Ar ben hynny, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn partneriaeth â Windy Wick Ecology, arbenigwyr a grwpiau bywyd gwyllt lleol, i adolygu'r data rhywogaethau a chynefinoedd sydd ar gael ar gyfer Caerdydd ac i ddatblygu mwy o syniadau ar gyfer camau gweithredu a phrosiectau. Unwaith eto, bydd hyn yn cael ei wneud trwy gyfres o weithdai wyneb yn wyneb ac ar-lein. Y dyddiad cau ar gyfer adborth yw diwedd mis Mehefin.<br><br>Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn llywio datblygiad CGAN Caerdydd drafft ar gyfer ymgynghoriad terfynol; y gobaith yw y bydd y Cynllun drafft yn barod ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn yr hydref, gyda fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi erbyn mis Mawrth 2025. |
| Cwblhau a chynnal gweithrediad y Siarter Teithio Iach i gefnogi newid moddol ymhlith staff gwasanaethau cyhoeddus. | Mae partneriaid yng Nghaerdydd wedi parhau i gymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno'r Siarter Teithio Iach, gyda'r Grŵp Cyfoedion - sydd bellach yn grŵp cyfunol gyda Bro Morgannwg - yn rhannu arfer da a chynnydd.<br><br>Cymerodd partneriaid ran mewn amryw o gyfleoedd cyfathrebu yn ystod 2023/24, gan gynnwys Diwrnod 'Beicio i'r Gwaith' ym mis Mehefin 2023, a Diwrnod 'Teithio Llesol' ym mis Medi 2023, gan godi ymwybyddiaeth gyda staff ac yn allanol o ran yr hyn y mae eu sefydliadau'n ei wneud i gefnogi trafnidiaeth gynaliadwy. Cynhaliwyd y Grŵp Cyfoedion gan Pedal Power ym mis Rhagfyr 2023 i gefnogi trafodaeth ar sut i wella mynediad a thegwch mewn perthynas â beicio a mathau eraill o drafnidiaeth gynaliadwy. Mae naw sefydliad yng Nghaerdydd wedi cwblhau'r Siarter wreiddiol ('lefel 1') yn ffurfiol, gyda phedwar bellach wedi cofrestru ar gyfer y Siarter Lefel 2 sy'n cynnwys ymrwymiadau mwy ymestynnol.<br><br>Yn ystod 2024/25, rhagwelir y bydd y data cadarn cyntaf ar y modd trafnidiaeth ar gael yng Nghymru, yn dilyn cyflwyno Arolwg Teithio Cenedlaethol blynyddol newydd. Ni fydd data ar lefel Awdurdod Lleol i ddechrau ond, fel gydag Arolwg Cenedlaethol Cymru, rhagwelir y bydd hyn yn bosib yn y blynyddoedd i ddod drwy gronni data dros gyfnod o 2 neu 3 blynedd. Dylai hyn ddarparu data cadarn ar newidiadau yn y modd teithio dros amser. Ar ben hynny, yn 2024 a 2025, bydd gwelliannau sylweddol i drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd ac ardal ehangach y Cymoedd gyda cherbydau rheilffyrdd newydd ychwanegol, cynyddu amlder y trenau, taliadau tapio i mewn ac allan, ac agor cyfnewidfa fysus newydd yng Nghaerdydd. Mae gan hyn y potensial i gefnogi newid moddol ymhlith gweithwyr yn ystod y flwyddyn i ddod. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cydweithio i greu cynifer o gyfleoedd â phosib i ddatblygu cymdogaethau cerddadwy wrth ddatblygu ac adeiladu seilwaith sector cyhoeddus newydd mawr, megis ystadau iechyd neu awdurdod lleol, gan fwrw 'mlaen ag uchelgais Caerdydd i ddod yn 'ddinas 15 munud.' | Mae Strategaeth Adfywio newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer Caerdydd, sy'n ceisio cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau ardal a chanolfannau lleol. Yn ogystal, mae pecyn cymorth dinas 15 munud yn cael ei ddatblygu i ategu'r Strategaeth Adfywio. |
| Hyrwyddo bwyd iach, lleol, a charbon isel a chefnogi cais Bwyd Caerdydd i ddod y Lle Bwyd Cynaliadwy Aur cyntaf yng Nghymru. | Mae partneriaeth Bwyd Caerdydd yn mynd o nerth i nerth, gyda thros 250 o aelodau'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo bwyd iach a chynaliadwy ledled y ddinas, gyda'r nod o gyflwyno'r cais am Wobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ddiweddarach yn 2024.<br><br>Mae sawl prosiect ar y gweill i hyrwyddo bwyd iach, lleol a charbon isel ledled Caerdydd. Er enghraifft:<br><br>• Mae rhaglen arloesi gwerth £2 filiwn a ariennir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ar y gweill, sy'n noddi ffyrdd newydd ac arloesol o dyfu, dosbarthu a datgarboneiddio'r sector bwyd lleol.  Dechreuodd cam 'Arddangos' y rhaglen ym mis Gorffennaf 2023, gyda chyllid yn cael ei roi i FareShare Cymru, mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro, i ddatblygu prosiect ailddosbarthu bwyd dros ben. Mae'r fenter wedi darparu prydau, wedi'u gwneud o fwyd a fyddai fel arall yn mynd yn wastraff, i sefydliadau cymunedol ac elusennau sy'n cefnogi rhai o aelodau'r gymdeithas sy'n fwyaf agored i niwed. Dechreuodd ail rownd cam yr Arddangos ym mis Medi 2023, gyda'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch. Oherwydd yr heriau o ran bodloni meini prawf y rhaglen, fodd bynnag, nid oedd modd cwblhau prosiect CYGU. Bydd cam 'Uwchraddio' y rhaglen yn dechrau ym mis Medi 2024, a disgwylir i geisiadau gael eu cyflwyno ym mis Awst.<br><br>• Cynhaliwyd gweithdy Yr Awr Fwyd ym mis Mawrth 2024. Mae'r Awr Fwyd yn brosiect peilot newydd, dan arweiniad Cyngor Caerdydd, mewn cydweithrediad â Gwasanaethau Maeth a Deieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac a ariennir gan gronfa Arloesi Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru. Nod y prosiect yw creu cenedl o ddinasyddion bwyd da drwy neilltuo un Awr Fwyd y diwrnod ysgol i bob plentyn. Bydd y prosiect yn cynnwys ffurfio gweithgor; sefydlu model darpariaeth cost-effeithiol; profi'r ddarpariaeth mewn hyd at chwe ysgol gynradd; ac adeiladu achos dros y dull hwn wrth ystyried ei effaith ar gymdeithas hefyd.<br><br>• Mae Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd wedi eu cyflwyno ym mhob Ysgol Gynradd ledled Caerdydd. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Gwella ansawdd dŵr drwy ddatrysiadau dalgylch-gyfan sy'n seiliedig ar natur i reoli adnoddau dŵr. | Mae datrysiad dalgylch cyfan i reoli adnoddau dŵr, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn cael ei dreialu/symud ymlaen yn nalgylch Afon Elái, sy'n cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Caerdydd, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd Asesiad Cyfalaf Naturiol i ddeall yn well yr asedau naturiol pwysig sy'n darparu ystod o fuddion i gymuned fywiog yr ardal.<br><br>Mae'r prosiect wedi bod ar y gweill ers 2021, i ddeall gwerth amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cyfalaf naturiol yn y dalgylch a nodi cyfleoedd i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, gan ganolbwyntio ar adfer afonydd, rheoli llifogydd, a gwella ansawdd dŵr. Roedd Cam 1 y prosiect yn cynnwys cynnal asesiad sylfaenol o gyfalaf naturiol yn nalgylch Trelái i ddeall statws asedau naturiol a'u manteision. Roedd Cam 2 yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid er mwyn deall blaenoriaethau ac ysgogiadau lleol yn well o safbwynt gwasanaethau cyhoeddus, datblygiad strategol ac o safbwynt y cyhoedd. Nododd hyn gyfres o flaenoriaethau ar gyfer adeiladu'r cyfalaf naturiol sydd ei angen a lle mae'r cyfleoedd i wneud hyn.<br><br>O ran y camau nesaf, mae cyfleoedd cyfalaf naturiol y dalgylch yn cael eu harchwilio, sy'n cynnwys datblygu cynllun dalgylch cyfan, sy'n canolbwyntio ar ymagwedd bartneriaeth, i sicrhau bod gwelliannau cyfalaf naturiol yn cael eu cyflawni lle gallant gynhyrchu'r budd mwyaf i natur a phobl.<br><br>Gellid ailadrodd y broses hon i lywio cynllunio strategol rhanbarthol ehangach neu fuddion lleol mewn dalgylchoedd eraill. Yn ogystal, o ystyried y manteision posib a nodwyd drwy Asesiad Cyfalaf Naturiol Afon Elái, cynigir sawl cynllun adfer afonydd ychwanegol, gan gynnwys:<br>• Nant y Wedal, Parc y Mynydd Bychan<br>• Nant Lleucu, Cae Rec y Rhath<br>• Nant Glandulais, Parc y Llysiau Poeth, Pontprennau<br><br>Cynhelir ymgynghoriad gyda chymunedau i ddeall eu barn ar y cyrsiau dŵr a pha welliannau yr hoffent eu gweld fel rhan o gyfalaf naturiol gwell y mannau glas. |
| Deall effaith yr hinsawdd newidiol ar ein gwasanaethau a'n hystadau fel y risg o lifogydd, gan weithredu atebion addasu i'r hinsawdd yn ôl y gofyn. | Datblygwyd Fframwaith Asesu Risg Newid Hinsawdd, gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r fframwaith yn cynnig proses gam wrth gam ar gyfer asesu risg newid hinsawdd. Yn dilyn hynny, gallai canlyniadau'r gwaith hwn arwain at gam nesaf sy'n llywio dulliau a chamau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o bosib. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar faterion gallu ac adnoddau, er mwyn sicrhau y gellir cwblhau'r asesiad mor effeithiol â phosib. |

## Amcan Lles 7: Moderneiddio ac Integreiddio ein Cymunedau

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Cynyddu'r defnydd o ddata, gan gynnwys data a rennir, ar draws gwasanaethau cyhoeddus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a diwygio gwasanaethau, gan adeiladu ar y dull llwyddiannus a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig. | Mae nifer o brosiectau'n cael eu datblygu i wella'r broses o rannu data a dysgu ar draws sefydliadau:<br><br>**Prosiect Golwg Unigol ar y Plentyn**<br><br>Nod y Prosiect Golwg Unigol yw mynd i'r afael â'r argymhellion a godwyd gan nifer o adolygiadau achosion difrifol dros yr 20 mlynedd diwethaf, lle gallai gwell arferion rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau partner fod wedi helpu i osgoi'r canlyniadau trasig i'r plant dan sylw. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddod â gwybodaeth ynghyd o systemau TG gwahanol ar draws Gwasanaethau Plant, Addysg, Iechyd, a nifer o wasanaethau sector cyhoeddus eraill, i greu un darlun cydgysylltiedig o blentyn. Bydd hyn yn arwain at rannu gwybodaeth yn gyflymach ar draws gwasanaethau, ynghyd â gwneud penderfyniadau gwell a arweinir gan wybodaeth, ar lefel achosion unigol ac ar lefel strategol.<br><br>Dros y 12 mis diwethaf, mae'r prosiect wedi cymryd camau breision wrth gyrraedd ei nod, er gwaethaf heriau o ran llywodraethu gwybodaeth, galluoedd technegol systemau a phrosesau, ac adnoddau prosiectau. Bellach mae gan y prosiect gynnyrch byw y bwriedir ei lansio yn 2024-25, gyda'r defnyddwyr cyntaf yn weithwyr cymdeithasol rheng flaen yn y Gwasanaethau Plant.<br><br>**Dangosfwrdd Diogelwch Cymunedol**<br><br>Offeryn delweddu data troseddau lefel uchel yw'r Dangosfwrdd Diogelwch Cymunedol a all helpu i amlygu a nodi meysydd o ddiddordeb, agor pynciau i'w trafod a hwyluso'r gwaith o gomisiynu dadansoddiad penodol, wedi'i dargedu, pan fydd angen gwybodaeth fanylach. Cyflwynir y data yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) ac ar lefel ward, yn ogystal â chael golwg map cod post a thudalennau lle gellir gweld data dros amser, lle y bo ar gael. Gellir dewis y math o drosedd ac is-gategori a'u cymharu ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghaerdydd, gyda'r data'n cael ei gyflwyno gyda rhifau cyfan, newid o flwyddyn i flwyddyn, trosedd fesul 1,000 o'r boblogaeth a chanran, lle y bo hynny'n bosib.<br><br>Dros y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd sawl gweithdy gwella lle cafodd gwahanol agweddau ar ddefnyddioldeb a chyflwyno data eu hadolygu a'u trafod. Yn seiliedig ar yr adborth a'r awgrymiadau yn y sesiynau hyn, mae gwelliannau a newidiadau wedi'u rhoi ar waith, er mwyn gwella profiad y defnyddiwr terfynol. Mae'r dangosfwrdd wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd ac ar gael ar gyfer grŵp defnyddwyr dethol, fel y'i diffinnir ac a reolir gan Dîm Diogelwch Cymunedol Cyngor Caerdydd. Erbyn diwedd mis Mehefin 2024, bydd y gwaith o drosglwyddo'r dangosfwrdd wedi'i gwblhau, a bydd y Tîm Diogelwch |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| | Cymunedol yn gyfrifol am ddiweddariadau, gwelliannau a chynnal a chadw parhaus, gyda chymorth ad-hoc parhaus yn cael ei ddarparu'n ganolog pan fo angen.<br>**Dangosfwrdd y Ddinas**<br>Mae Dangosfwrdd y Ddinas yn dwyn ynghyd nifer o ffynonellau data i ddarparu trosolwg cyfannol o Gaerdydd, gan gynnwys dangosyddion canlyniadau Cynllun Lles BGC Caerdydd. Gellir gweld y data dros amser a, lle y bo ar gael, ei gymharu ag ardaloedd eraill neu ei ddadansoddi ar lefel ward.<br>Dros y 12 mis diwethaf, bu ailgynllunio helaeth yn elfennau ochr gefn y dangosfwrdd ynghyd â'r elfennau sy'n wynebu'r defnyddiwr, gyda'r model data wedi'i ad-drefnu i ddarparu diweddariadau mwy dibynadwy, amserol ac awtomataidd pan ddaw data ar gael. Mae dyluniad, cynllun a chyflwyniad y data wedi'i ddiwygio i sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno mor glir â phosib a bod nodweddion yn hawdd i'w defnyddio. Disgwylir i'r diweddariad llawn gael ei gyhoeddi'n fuan, gyda tharged o ganol Gorffennaf 2024, gyda gwaith cynnal a chadw ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau mis Medi i ddilyn unrhyw adborth ar unwaith gan ddefnyddwyr. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, bydd gwaith cynnal a chadw parhaus o'r dangosyddion yn parhau ar sail ad-hoc, pan fydd rhai newydd ar gael. |
| Mabwysiadu dull integredig o reoli tir, adeiladau a gwasanaethau'r sector cyhoeddus mewn ardaloedd lleol, gan ymateb i anghenion a chryfderau pob cymuned, gan gynnwys cymunedau presennol a rhai a gynllunnir. | Ailsefydlwyd y Bwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth yn 2023-24 ac mae'n cyfarfod bob chwarter, gan ganolbwyntio o'r newydd ar strategaethau a rennir a phrosiectau partneriaeth.<br>Mae cyfarfodydd diweddar wedi canolbwyntio ar Gynllunio Cyfalaf Strategol, deall asedau cyfalaf a chynlluniau cyfalaf presennol, a nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer archwilio pellach a chydweithio. Mae'r gwaith hwn wedi'i lywio gan Gynllun Cyfalaf Strategol Caerdydd a'r Fro, a ddatblygwyd drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, sy'n tynnu sylw at gyfleoedd buddsoddi tymor byr, canolig a hirdymor i gefnogi'r cyfeiriad strategol yn y rhanbarth, wedi'i lywio gan bolisi cenedlaethol, asesiadau o anghenion y boblogaeth rhanbarthol ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad. Cytunwyd ar amrywiaeth o gynlluniau partneriaeth â blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg ac maent yn cael eu datblygu o ganlyniad, gan gynnwys prosiectau hybiau partneriaeth newydd. Nod prosiectau'r hybiau yw dylunio a darparu asedau addas at y diben newydd sy'n hwyluso cydleoli gwasanaethau, staff a darparu dull cyfannol o ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu gwasanaethu mewn cymunedau lleol, gan gynnwys pobl ag anghenion iechyd meddwl a phlant ag anghenion meddygol cymhleth. Mae prosiectau sy'n gysylltiedig â swyddfeydd craidd gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn cael eu datblygu. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
| --- | --- |
| | Mae nifer o risgiau allweddol yn cael eu nodi yn y Cynllun Cyfalaf Strategol, sydd wedi'u dogfennu'n dda ar draws sefydliadau partner. Mae hyn yn cynnwys:<br>• Prinder adnoddau o ran rhaglen gyfalaf a chyflawni prosiectau o fewn pob sefydliad partner oherwydd heriau recriwtio, prinder sgiliau neu faterion refeniw ehangach.<br>• Costau cynyddol o fewn y sector adeiladu.<br>• Hyfywedd cynlluniau - materion cost a thechnegol.<br>• Argaeledd, sgiliau ac adnoddau contractwr.<br>• Adnoddau cyfyngedig o fewn sefydliadau partner, mae cyfalaf a refeniw yn canolbwyntio ar faterion brys yn hytrach na blaengynllunio a meddwl yn rhagweithiol.<br>Fodd bynnag, mae ymrwymiad cryf i gydweithio ar gynllunio cyfalaf strategol ac mae'r gwaith presennol yn adeiladu ar brosiectau partneriaeth llwyddiannus hyd yma. Mae technegau rheoli prosiectau cadarn yn cael eu defnyddio, gyda'r rhaglen gyffredinol yn cael ei chefnogi gan log risgiau sydd wedi'i fonitro a'i reoli i nodi risgiau, camau gweithredu, problemau a phenderfyniadau. |
| Cynyddu lefelau ymgysylltu â dinasyddion wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig gyda grwpiau a phobl ifanc sydd wedi dadrithio'n ddinesig, gan archwilio dull ar y cyd o ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion. | Ymrwymodd BGC Caerdydd i lunio 'Adroddiad Trosolwg Ymgynghori' yn flynyddol, sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gan bartneriaid yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Trosolwg Ymgynghori cyntaf fel dogfen ategol i Gynllun Lles Lleol (2023-28) newydd BGC Caerdydd, gan dynnu sylw at ganfyddiadau allweddol, yn ogystal â materion penodol a godwyd gan grwpiau demograffig allweddol yn seiliedig ar ddadansoddiad o ganlyniadau gan ddemograffeg. Disgwylir i'r fersiwn nesaf gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn 2024.<br>Er bod hwn yn gam cadarnhaol ymlaen, cydnabyddir y gellid cryfhau'r dull partneriaeth o ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach, er mwyn ehangu cwmpas cyfleoedd a helpu i fynd i'r afael â heriau a rennir. Yn ystod y misoedd diwethaf, felly mae sgyrsiau wedi gwneud cynnydd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ynghylch sefydlu 'Partneriaeth Ymgysylltu â Gwasanaethau Cyhoeddus'. Mae'r syniad o'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar rannu adnoddau, gwybodaeth a rhwydweithiau i wir ddefnyddio sgiliau cyfunol gwasanaethau cyhoeddus a chyflawni'r gwaith ymgysylltu o'r ansawdd uchaf ar draws y rhanbarth, heb fawr ddim dyblygu. Cynigir bod y grŵp yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ymgysylltu o sefydliadau partner ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg. |

| Blaenoriaeth | Diweddariad |
|---|---|
| Arwain gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymateb i amrywiaeth y ddinas ac yn ei hadlewyrchu, gan gynnwys ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a'u gweithredu'n llawn. | Ym mis Gorffennaf 2020, cytunodd y Cabinet i sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd i weithio gyda'r Cyngor a phartneriaid yn y sector cyhoeddus i nodi cyfleoedd ymarferol ar gyfer newid a fyddai'n gwella cydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd a dod o hyd i ffyrdd newydd i wella canlyniadau ar gyfer trigolion o leiafrifoedd ethnig.<br>Cyhoeddodd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd ei adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2022 a oedd yn cynnwys 31 o argymhellion ar draws y 5 maes thematig:<br>• Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol<br>• Addysg a Phobl Ifanc<br>• Llais y Dinesydd<br>• Iechyd<br>• Cyfiawnder Troseddol<br>Ym mis Tachwedd 2022, cytunodd BGC Caerdydd i sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Caerdydd, gan ddod â Phartneriaid Gwasanaethau Cyhoeddus ynghyd, am y tro cyntaf, i helpu i hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle, arallgyfeirio gweithluoedd a chefnogi datblygiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn sefydliadau. Cytunwyd y byddai'r Rhwydwaith hefyd yn goruchwylio argymhellion y Tasglu sy'n gofyn am ymateb partneriaeth.<br>Cafodd yr holl argymhellion eu hystyried a'u derbyn ym mis Rhagfyr 2022, gyda 22 argymhelliad allan o'r 31 i'w datblygu gan Gyngor Caerdydd a'r 9 argymhelliad arall i'w datblygu gan bartneriaid y Sector Cyhoeddus.<br>Ar gyfer pob argymhelliad, mae cyrff cyhoeddus perthnasol wedi gweithio i nodi ymateb rheoli cynhwysfawr. Cafodd y Tasglu ei ailgynnull ym mis Mehefin 2024 i ystyried cynnydd; yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran cyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Cydnabuwyd bod y camau gweithredu yn cynrychioli rhaglen waith sylweddol ac yn adeiladu ar yr arfer da sydd eisoes yn amlwg ar draws sefydliadau.<br>Wrth symud ymlaen, mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod unrhyw gamau parhaus neu heb eu cwblhau yn cael eu gwreiddio mewn fframweithiau polisi, er mwyn sicrhau bod ffocws yn cael ei gynnal ar gyflawni'r holl gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn llawn. O safbwynt Cyngor Caerdydd, bydd nifer o'r argymhellion yn cael eu trawsnewid a'u hintegreiddio yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 y Cyngor, wrth i argymhellion partneriaid y sector cyhoeddus lleol gael eu hymgorffori mewn dulliau llywodraethu ac adrodd Rhwydwaith Cydraddoldeb y Gwasanaethau Cyhoeddus, a'u monitro drwy'r rhain. |